



Cardiff Students' Union
Undeb Myfyrwyr Caerdydd

CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL

Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd
Dydd Iau 24^{ain} Tachwedd 2022 - 18:00
Y Neuadd Fawr

Agenda

- | | | | |
|------------|------|--|-------|
| | 1. | Croeso | |
| Gorffennol | 2. | Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Tachwedd 2021 | (T2) |
| | 3. | Adroddiad Blynyddol 21/22 | (T15) |
| | 4. | Adroddiad Ariannol 21/22 | (T16) |
| Presennol | 5. | Ymlyniadau | (T20) |
| | 6. | Cwestiynau Agored i'r Ymddiriedolwyr | |
| Dyfodol | 7. | Cynigion a Gyflwynwyd | (T21) |
| | | A) Polisi sy'n dirwyn i ben | |
| | | B) Cynigion a Gyflwynwyd | |
| | i) | Mabwysiadu safbwynt swyddogol o blaid yr hawl i ddewis | (T22) |
| | ii) | Camau er budd yr hinsawdd ac atebolrwydd: Gwneud Sero Net yn Realiti | (T27) |
| | iii) | Gweithredu diwydiannol gan UCU | (T30) |
| | iv) | Safbwynt Undeb Myfyrwyr Caerdydd ar Gwpan y Byd FIFA 2022 Prifysgol Caerdydd | (T36) |
| | v) | Cops Oddi ar y Campws | (T38) |
| | vi) | Gyrfaedd Heb Ffossil | (T48) |
| | vii) | Swyddog Lleiafrifoedd Llawn Amser Prifysgol Caerdydd | (T51) |
| | 8. | Hysbysiad Etholiadau | |
| | 9. | Unrhyw Fater Arall | |



EITEM DAU

CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL 2020/21:
Cofnodion
Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd
Dydd Iau 25^{ain} Tachwedd 2021, 18:00
Lleoliad: Y Neuadd Fawr, Undeb Myfyrwyr Caerdydd

Gellir gweld recordiad llawn o'r cyfarfod yn: <https://www.facebook.com/cardiffstudents/videos/annual-general-meeting-2021-cyfarfod-cyffredinol-blynyddol/923444174969435>

1.	Croeso Croesawodd Rebecca Hardy (Cadeirydd) bawb a oedd yn bresennol ac amlinellodd y ffordd y byddai busnes yn cael ei gynnal yn ystod y cyfarfod.
2.	Cofnodion 20/21 Cadarnhawyd cofnodion Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2020/2021 fel rhai cywir a chawsant eu cymeradwyo.
3.	Adroddiad Blynyddol 20/21 Cyflwynodd Hannah Doe (Llywydd yr UM) Adroddiad Blynyddol yr UM ar gyfer 20/21 gan nodi effaith y pandemig ar y flwyddyn academiaidd ddiwethaf. Aeth Llywydd yr UM ymlaen i egluro'r uchafbwyntiau y gellir eu gweld yma .
4.	Adroddiad Ariannol 20/21 Cyflwynodd Daniel Palmer Adroddiad Ariannol 20/21 a datganiadau ariannol archwiledig y grŵp a'r Undeb.
5.	Ymaelodaethau Eglurodd RH mai ymaelodaethau'r UM yw: Ffi aelodaeth UCM £37,500



	Ffi aelodaeth BUCS £19,367 <i>Cymeradwywyd yr ymaelodaethau.</i>
6.	Cwestiynau Agored i'r Ymddiriedolwyr C1. Gofynnodd aelod beth oedd y rheswm dros wrthod cyllido Swyddog y Gymraeg Llawn-amser i'w gyllido am y 3 blynedd diwethaf, a gofynnodd faint mae Undeb y Myfyrwyr wedi'i wario ar yr Iaith Gymraeg yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. (24:31) A1. Atebodd Hannah Doe (Llywydd yr UM) gan nodi bod DP wedi crybwyll bod cronfa ariannol wrth gefn yn bodoli, ond ni ellir gwario'r cyfan ohoni. Soniodd Hannah hefyd am gynnig a gyflwynwyd yn 2018 i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ar gyfer rôl Swyddog Iaith Gymraeg, ond na phasiodd. (27:56) C2. Gofynnodd aelod am y tebygolrwydd y byddai'r Brifysgol yn rhoi arian ychwanegol i Undeb y Myfyrwyr i dalu am ddiffygion cyllidol, ac a oes gan yr UM ddulliau eraill o gaffael arian os nad yw'r Brifysgol yn darparu cyllid digonol. (26:04) A2. Atebodd Hannah Doe (Llywydd yr UM) fod yr UM yn cynhyrchu incwm drwy nodweddion allweddol y sefydliad fel Taf a gwasanaethau eraill yn yr UM. (29:47) C3. Gofynnodd aelod a oes arian dros ben i'w wario ar weithgareddau eraill, gan nodi bod arian sylweddol wedi'i wario ar dalebau ar ôl yr Etholiadau yn y flwyddyn academiaidd ddiwethaf. (26:45) A3. Atebodd Hannah Doe (Llywydd yr UM) fod y nifer a bleidleisiodd yn y flwyddyn academiaidd ddiwethaf ymhlith yr uchaf yn y wlad, a nododd fod y talebau yn mynd yn ôl i mewn i boblogaeth y myfyrwyr. (31:04) C4. Gofynnodd aelod a yw'r UM yn gwneud unrhyw beth ynghylch sbeicio diodydd ac atal ymosodiadau yn erbyn menywod a grwpiau eraill. (32:33) A4. Atebodd Hannah Doe (Llywydd yr UM) fod UM yn gweithio gyda Heddlu De Cymru a Dinas Caerdydd. Nodwyd bod yr UM yn agored i awgrymiadau. (35:19) C5. Gofynnodd aelod i ba raddau y mae UM Caerdydd yn gweithio gydag Undebau Myfyrwyr eraill ledled y wlad i fynd i'r afael â materion myfyrwyr ar lefel genedlaethol a



	achoswyd gan COVID. (33:22) A5. Atebodd Orla Tam (Is-Lywydd Ôl-raddedig) fod yr UM wedi cydweithio ag UCM ar wahanol ymgyrchoedd a'u bod yn sefyll yn gadarn gyda'r holl fyfyrwyr. Mae OT a'r UM yn agored i gydweithio a derbyn awgrymiadau. (37:30) C6. Gofynnodd aelod beth mae'r UM yn ei wneud i sicrhau bod darlithoedd yn dychwelyd i drefn wyneb-yn-wyneb. (34:26) A6. Atebodd Gina Dunn (Is-Lywydd Addysg) fod y Brifysgol yn parhau â dull Cyfunol. Nodwyd y bydd darpariaethau'r semester nesaf yn ddwy ran o dair neu'n gyfangwbl wyneb-yn-wyneb, a dylai myfyrwyr gysylltu â ni i lobio am fwy. (39:22) C7. Nododd myfyriwr mai rhagrith yw gwisgo masgiau yn ystod addysgu wyneb-yn-wyneb yn y Brifysgol, fodd bynnag caniateir nifer fawr mewn clybiau. (40:58) A7. Atebodd Hannah Doe (Llywydd yr UM) fod dewis mynd i glybio a mynd i'r Brifysgol yn benderfyniadau gwahanol. (43:10) C8. Gofynnodd myfyriwr faint o gyllid y mae'r UM yn ei wario yn benodol ar lechyd Meddwl Myfyrwyr, a'r rheswm dros gyfyngu ar nifer y sesiynau cwnsela. Gofynnodd y myfyriwr hefyd a yw hyn wedi newid dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. (41:44) A8. Atebodd Hannah Doe (Llywydd yr UM) fod y Brifysgol wedi cynyddu nifer y staff tra hefyd yn nodi bod yr adran Cyngor i Fyfyrwyr yn bodoli o fewn yr UM ar gyfer cynnig cymorth. (44:30) C9. Gofynnodd myfyriwr a yw'n bosibl agor y Neuadd Fawr ar ddydd Mercher i atal gormod o bobl yn ymgynnull mewn un man. (42:14) A9. Atebodd Megan Somerville (Is-Lywydd Chwaraeon a'r Undeb Athletau) i hyn gan ddweud bod agor y Neuadd Fawr yn cael ei ystyried, ond bod y gost yn uchel iawn. Nodwyd bod yr UM yn gwneud ei orau i ddarparu ar gyfer anghenion pawb a chroesewir awgrymiadau i'r Swyddogion Sabothol. (45:50)
7.	Eitemau a Gyflwynwyd gan Undeb y Myfyrwyr
i.	Diweddariad ar Adolygiad yr Iaith Gymraeg



	Rhoddodd Hannah Doe (Llywydd yr UM) ddiweddariad ar yr Adolygiad o'r iaith Gymraeg ac amlinellodd y camau nesaf. Ni chafwyd unrhyw gwestiynau.
8.	Cynigion a Gyflwynwyd
i.	Swyddog y Gymraeg Llawn-Amser ar gyfer Prifysgol Caerdydd (58:59) Cyflwynwyd gan: Anell Dyfri Eiliwyd gan: Deio Owen Siaradwr o blaid Siaradodd Anell Dyfri o blaid y cynnig a nododd y rhan angenrheidiol y byddai cael Swyddog y Gymraeg llawn amser yn chwarae mewn sicrhau bod myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg a myfyrwyr nad sy'n siarad Cymraeg yn derbyn yr un tegwch a chefnogaeth o fewn yr UM. Nododd Anell bod gan Undebau Myfyrwyr Abertawe, Aberystwyth a Bangor i gyd Rolau Sabothol ar gyfer y Gymraeg o fewn eu Hundebau Myfyrwyr. Siaradwr yn erbyn Siaradodd Hannah Doe (Llywydd yr UM) yn erbyn y cynnig a rhoddodd gyd-destun hanesyddol ynglŷn â thrafodaeth y Bwrdd; nododd na allent dderbyn y cynnig a gyflwynwyd yn y gorffennol oherwydd maint mawr Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a sut y byddai'n newid effeithiolrwydd y bwrdd. Nododd Hannah nad yw pleidleisio dros y cynnig heddiw o reidrwydd yn golygu y bydd yn cael ei gymeradwyo gan y Bwrdd. Siaradwr o blaid Siaradwyd o blaid y cynnig gan nodi bod Saesneg yn cael ei hystyried yn iaith bwysicach i'w dysgu yn ystod plentyndod na'r Gymraeg. Eglurodd y siaradwr bwysigrwydd y materion dan sylw a'r angen i ddyfalbarhau a gwneud lle i Swyddog y Gymraeg Llawn-Amser. Gofynnodd y siaradwr i'r llawr ystyried a yw'r Gymraeg yn bwysig i'r wlad y mae ynddi. Doedd dim siaradwyr eraill yn erbyn.



	Crynodeb Rhoddodd cynigydd y cynnig grynodeb o'u cynnig. Nododd y cynigydd bod yr iaith Gymraeg yn perthyn i bawb, ac yn union pa mor bwysig yw'r rôl. Dim cwestiynau. <i>Mae'r cynnig yn pasio</i>
ii.	Newid Rôl ac Enw'r Is-Lywydd Lles ac Ymgyrchoedd (1:12:00) Cyflwynwyd gan: Hannah Doe Eiliwyd gan: Charlotte Towlson Siaradwr o blaid Siaradodd Hannah Doe o blaid y cynnig gan nodi manylion y rôl a sut olwg sydd ar y rôl. Nododd efallai na fydd Manifesto Ymgeisydd ar gyfer rôl yr IL Lles ac Ymgyrchoedd yn cyd-fynd â'r Swyddog Ymgyrchoedd. Nododd Hannah fod teitl y rôl yn gamarweiniol, yn awgrymu rhwymedigaethau heb eu cyflawni ar gyfer y rôl hon mewn ffordd gamarweiniol. Mae'n credu ei bod yn fwyaf priodol i newid y teitl yn barhaol o IL Lles ac Ymgyrchoedd i IL Lles o'r flwyddyn academaidd 2021/2022. Siaradwr yn erbyn Siaradodd aelod yn erbyn y cynnig gan ddweud bod y rôl yn bwysig, a nododd fod digon o amser ar gyfer cyflawni anghenion ymgyrchoedd a lles. Cred y myfyriwr bod y newid enw yn rhoi llai o gyfreithlondeb i rôl y Swyddog Sabothol ac i'r rôl fodoli fel y mae ar hyn o bryd. Siaradwr o blaid Siaradodd yr aelod o blaid y cynnig ac mae'n credu bod y rôl yn haeddu bod yn endid ar wahân i'r Swyddogion Sabothol. Nododd fod y rolau'n dod o dan yr IL Lles ac Ymgyrchoedd, tra bod y tîm yn gweithio'n galed iawn ochr-yn-ochr â'u hastudiaethau i sicrhau'r profiad gorau i fyfyrwyr.



	Siaradwr yn erbyn Siaradodd aelod yn erbyn y cynnig gan grybwyll ei bod yn rôl gyflogedig, ei bod yn rhan o'r brifysgol a bod ganddynt amser i gyflawni'r cyfrifoldebau. Roedd y myfyriwr yn teimlo'n gryf bod angen i ymgyrchoedd fod yn rôl Is-Lywydd oherwydd yr ystod eang y mae'r rôl yn ei chynnwys o fewn ymgyrchoedd a mentrau. Aeth y myfyriwr ymlaen i ddadlau bod y sefyllfa nid yn unig yn amddiffyn yr UM, ond hefyd Caerdydd fel dinas. Siaradwr yn erbyn Siaradodd aelod o blaid y cynnig gan ddweud y bydd swyddogion ymgyrchu yn agored i ddigon o gefnogaeth gan Lywydd yr UM neu swyddogion perthnasol ar y pryd. Doedd dim siaradwyr eraill yn erbyn. Crynodeb Cyflwynodd Hannah Doe grynoded o'r cynnig. <i>Mae'r cynnig yn pasio</i>
iii.	Mabwysiadu Diffiniad Cynghrair Rhyngwladol Coffáu'r Holocaust o Wrth-semitiaeth yn Llawn Cyflwynwyd gan: Nimrod Shefi Eiliwyd gan: Gemma Abrahams Siaradwr o blaid Siaradodd aelod o blaid y cynnig, gan fanylu ar brofiad personol a datgan bod troseddau casineb yn erbyn pobl Iddewig yn gyffredin iawn ac yn digwydd yn rheolaidd yn y Deyrnas Unedig. Nododd fod llawer o stereoteipiau a damcaniaethau yn arwain at greddau gwirioneddol sydd gan bobl neu grwpiau o bobl, ac yn y pen draw yn arwain at bobl yn teimlo'n ddig tuag at y grŵp lleiafrifol hwn. Rhannodd y siaradwr ystadegau gan y llywodraeth ar gyfradd troseddau casineb yn ymwneud ag Iddewon yn y Deyrnas Unedig. Cred y siaradwr y bydd mabwysiadu diffiniad Cynghrair Rhyngwladol Coffáu'r Holocaust yn caniatáu mwy o ymwybyddiaeth o weithredoedd gwrth-semitaidd ac y gall helpu i frwydro



yn ei erbyn ymddygiad o'r fath.

Siaradwr yn erbyn

Siaradodd myfyriwr yn erbyn y cynnig, gan nodi nad mabwysiadu'r diffiniad hwn o wrthsemitiaeth yw'r ffordd gywir o amddiffyn myfyrwyr Iddewig, gan fod y diffiniad yn amwys ac wedi'i eirio'n wael. Cred y myfyriwr fod y diffiniad wedi cael ei gamddefnyddio i dawelu beirniadaeth o lywodraeth Israel ac ymgyrchwyr Palesteinaidd. Nododd y dylai'r Brifysgol fynd i'r afael â gwrth-semitiaeth sefydliadol yn hytrach na mabwysiadu'r diffiniad hwn.

Siaradwr o blaid

Siaradodd Joe o blaid y cynnig, gan ddweud nad yw'r diffiniad yn ddiffiniad rhwymol; nid yw'n ymyrryd â'r rhyddid i lefaru nac ar wladwriaeth Israel. Dyfynnodd y siaradwr ddata sy'n awgrymu bod cynnydd mawr wedi bod mewn achosion o wrth-semitiaeth ar gampysau prifysgolion ledled y Deymas Unedig, a bod angen gweithredu. Nododd ymhellach y gall gwrth-semitiaeth fynd heb ei gydnabod, felly mae'n bwysig amlinellu'r hyn y gellir ei ystyried fel gwrth-semitiaeth.

Siaradwr yn erbyn

Siaradodd Irfan Mohammed yn erbyn y cynnig. Nododd mai'r unig beth mae'r diffiniad yn ei gyflawni yw amddiffyn a gwarchod gwladwriaeth Israel rhag atebolrwydd a beirniadaeth, ac nid yw'n gwneud dim i amddiffyn myfyrwyr Iddewig mewn gwirionedd.

Siaradwr o blaid

Siaradodd Jemma Abrahams o blaid y cynnig. Dywedodd y dylid caniatáu i'r gymuned Iddewig gymeradwyo diffiniad, a bod y cynnig hwn eisoes wedi'i fabwysiadu gan nifer o wledydd, pleidiau gwleidyddol, sefydliadau addysg uwch ac yn bwysicaf oll gan nifer o sefydliadau Iddewig ar draws y Deymas Unedig. Byddai'r cynnig hwn yn hybu trafodaeth iach a hefyd yn darparu ymwybyddiaeth o bynciau sy'n tramgwyddo myfyrwyr Iddewig.

Siaradwr yn erbyn

Siaradodd Maraj Raman Blake yn erbyn y cynnig. Nododd nad yw'r diffiniad yn amddiffyn y myfyrwyr Iddewig, ond ei fod yn ei ffurf bresennol yn atal trafodaeth gyfreithlon yn erbyn



	gwladwriaeth Israel, gan fod y diffiniad yn ei hamddiffyn rhag beirniadaeth angenrheidiol. Doedd dim siaradwyr eraill o blaid. Crynodeb Cyflwynodd Nimrod grynodeb o'r cynnig. <i>Mae'r cynnig yn pasio</i>
iv.	Derbyniad heb Eithriad: Amddiffyniad i'n Myfyrwyr Traws Cyflwynwyd gan: Orla Tarn Eiliwyd gan: Lucas Jakabovic Siaradwr o blaid Siaradodd y siaradwr o blaid y cynnig, gan nodi bod angen i hunaniaeth drawsryweddol a phob hunaniaeth ryweddol arall gael ei chynrychioli, ei chefnogi a'i derbyn ar y lefel fwyaf sylfaenol gan eu sefydliad. Nid yw'r systemau presennol sydd ar waith i gefnogi yn gweithio ac mae'n rhaid iddynt wneud yn well; hefyd mae angen i Brifysgol Caerdydd ac Undeb y Myfyrwyr achub ar y cyfle i sefyll yn gadarn gyda'u myfyrwyr yn erbyn camwahaniaethu. Bwriad y cynnig hwn yw bwrw ymlaen ag arfer da sydd ar waith ar hyn o bryd a'i ymgorffori mewn polisi ar gyfer y tair blynedd nesaf. Nodwyd bod y cynnig yn ceisio mandadu'r Undeb a'r Brifysgol i amddiffyn myfyrwyr Traws yn rhagweithiol. Doedd dim siaradwyr eraill yn erbyn. Crynodeb Cyflwynodd Orla grynodeb o'r cynnig. <i>Mae'r cynnig yn pasio</i>
v.	Gweithredu Diwydiannol gan UCU (1:56:28)



	Cyflwynwyd gan: Rachel Beaney Eiliwyd gan: Orla Tam Siaradwr o blaid Siaradodd Penny o blaid y cynnig. Tynnodd sylw at y ffaith bod 620 o fyfyrwyr ôl-raddedig ym Mhrifysgol Caerdydd ar hyn o bryd sy'n addysgu fesul awr ar sail achlysurol yn hytrach na chael eu cyflogi. O ganlyniad, nid ydynt yn derbyn tâl salwch, absenoldeb rhieniol, contractau na hawliau gweithlu sylfaenol. Nodwyd bod y cynnig yn gofyn i Undeb y Myfyrwyr sefyll mewn undod â'r staff sydd ar streic i frwydro am well triniaeth ac amodau gwaith. Siaradwr yn erbyn Siaradodd Joe Kid yn erbyn y cynnig. Nododd fod myfyrwyr yn cael eu defnyddio fel gwystlon gwleidyddol, lle mae myfyrwyr yn wynebu wythnosau o streiciau a tharfu ar eu hastudiaethau. Nid peri risg i addysg myfyrwyr yw'r ffordd o fynd i'r afael â'r mater, ac mae angen i reolwyr wrando a sylweddoli bod myfyrwyr wedi cael digon. Siaradwr o blaid Siaradodd Orla o blaid y cynnig, gan ddweud fel mudiad bod angen cymryd camau er budd nid yn unig myfyrwyr israddedig, ond hefyd ôl-raddedigion sy'n addysgu ochr-yn-ochr â'u hymchwil. Nawr yw'r amser i sefyll yn unedig fel sector dros achos cyffredin a chymryd rheolaeth o addysg myfyrwyr. Byddai'r cynnig yn caniatáu cyfres o fesurau i ddiogelu buddiannau academiaidd myfyrwyr a sicrhau na chaiff ôl-raddedigion eu bwrw allan gan yr athrofa. Cyflwynwyd Cynnig Gweithdrefnol. Siaradodd Hannah Doe o blaid cynnig gweithdrefnol. Nododd ei bod yn bwysig cymryd amser ac adolygu'r hyn y mae staff a myfyrwyr ôl-raddedig ei eisiau, ac nid nawr yw'r amser iawn i bleidleisio dros y cynnig hwn gan nad oes sicrwydd a fyddai streiciau'n cael eu cynnal. Awgrymodd y siaradwr na ddylid pleidleisio ar y cynnig ar hyn o bryd, ond yn hytrach aros nes bydd streiciau'n digwydd a gwneud penderfyniadau ar sail y wybodaeth sy'n cael ei rhyddhau yn ystod y cyfnod hwnnw. Siaradodd Penny yn erbyn y cynnig gweithdrefnol. Dywedodd bod angen anfon
--	---



	neges nawr yn hytrach nag aros i streiciau ddigwydd gan mai dim ond ychydig iawn o amser fyddai yna i weithredu neu ddod o hyd i fesurau lliniaru er mwyn rhoi gwybod i'r Brifysgol beth yw safbwynt y myfyrwyr. Yn flaenorol, ni weithredodd Undeb y Myfyrwyr yn ddigon amserol i ddod o hyd i safiad ar y streiciau, a oedd yn gadael myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig mewn sefyllfa ansicr a heb gefnogaeth. Doedd dim siaradwyr eraill. <i>Methodd y Cynnig Gweithdrefnol</i> Mae'r ddadl ar y cynnig yn parhau. Doedd dim siaradwyr eraill yn erbyn. Crynodeb Cyflwynodd Penny grynodeb o'r cynnig. <i>Mae'r cynnig yn pasio</i>
vi.	Polisi ar Ddigwyddiadau, Seminarau, Cyfarfodydd Hybrid a Gwesteion Cyflwynwyd gan: Joseph Liu Eiliwyd gan: Ben Martin, Gan Zhen Ni, Kay Morris Siaradwr o blaid Siaradodd Joseph o blaid y cynnig. Nododd fod yn well gan lawer o bobl, gan gynnwys myfyrwyr ag anableddau, gael yr opsiwn i fynychu digwyddiadau, seminarau, cyfarfodydd a.y.b. o bell. Dywedodd y siaradwr y dylid ystyried pob personoliaeth a nodwedd cymeriad drwy weithredu dull hybrid. Byddai'r polisi o fudd i fyfyrwyr sy'n methu â mynychu digwyddiadau wyneb-yn-wyneb oherwydd salwch, sy'n methu/ddim yn hoffi cymudo, sy'n teithio neu sydd ag anabledd. Siaradwr yn erbyn Siaradodd Maraj Raman Blake yn erbyn y cynnig, gan ddweud y byddai'r cynnig hwn yn



allgau cymdeithasau llai ac na fyddai'n ymarferol ar gyfer y rhan fwyaf o ddigwyddiadau cymdeithasol. Nododd bod lle i ymagwedd hybrid; fodd bynnag, mae ei gorfodi yn anghyfrifol ac yn anystyriol.

Siaradwr o blaid

Siaradodd Kieran Capper-Williams o blaid y cynnig. Dywedodd fod mynediad o bell yn bwysig i fyfyrwyr anabl gan eu bod yn cael eu heffeithio drwy'r amser, yn wynebu camwahaniaethu, ac yn cael eu cau allan o'r rhan fwyaf o weithgareddau. Nododd fod arolygon yn awgrymu normal newydd sy'n dod â phobl at ei gilydd ac yn annog myfyrwyr i fod yn rhan o fwy o gymdeithasau a digwyddiadau.

Cyflwynwyd Cynnig Gweithdrefnol.

Siaradodd William Martin o blaid cynnig gweithdrefnol. Nododd y dylid pleidleisio ar y cynnig ar wahân, gan fod datrysiad ar gyfer dull hybrid o fewn y Brifysgol a chymdeithasau yn llai realistig.

Siaradodd Joseph yn erbyn y cynnig gweithdrefnol. Dywedodd fod y cynnig yn annog cynnwys digwyddiadau hybrid, ond nad yw'n diystyru parhau â gweithgareddau wyneb-yn-wyneb.

Doedd dim siaradwyr eraill.

Dim cwestiynau.

Pasiwyd y Cynnig Gweithdrefnol. Penderfyna'r CCB i gael ei bleidleisio arno mewn rhannau.

Mae'r ddadl ar y cynnig yn parhau.

Siaradwr yn erbyn

Siaradodd Chris Grieve yn erbyn y cynnig. Nododd fod y cynnig yn rhoi argraff o blismona o ran sut y dylai cymdeithasau a myfyrwyr fod yn cynnal digwyddiadau. Nid pwrpas Undeb y Myfyrwyr yw gosod rheolau gorfodol ar sut dylai myfyrwyr fynd ati i gael hwyl. Awgrymodd y siaradwr, yn hytrach na hynny y dylid rhoi cefnogaeth i grwpiau/cymdeithasau/digwyddiadau sy'n bodoli eisoes sydd am roi cynnig ar



	weithgareddau rhithwir, nid gorfodi pobl i gynnal gweithgareddau ar-lein. Crynodeb Cyflwynodd Joseph grynoded o'r cynnig. <i>Penderfyna Rhan 1 y Cynnig i'r CCB yn Pasio</i> <i>Penderfyna Rhan 2 y Cynnig i'r CCB yn Methu</i> <i>Penderfyna Rhan 3 y Cynnig i'r CCB yn Methu</i> <i>Penderfyna Rhan 4 y Cynnig i'r CCB yn Methu</i> <i>Penderfyna Rhan 5 y Cynnig i'r CCB yn Methu</i>
vii.	Ymgyrch Prifysgol Noddfa yn Croesawu Ffoaduriaid Cyflwynwyd gan: Albert Davies-Smith Eiliwyd gan: Matilde Pinto Vicente Siaradwr o blaid Siaradodd Albert o blaid y cynnig, gan ddweud nad yw bod yn ffoadur yn ddewis personol a'i fod yn cael ei achosi gan sawl ffactor sy'n newid bywyd. Nododd fod ffoaduriaid yn cael trafferth aruthrol i ailadeiladu eu bywydau ac yn cael eu tangynrychioli'n ddifrifol mewn addysg uwch. Mae anghydraddoldeb enfawr rhwng ffoaduriaid a'r rhai nad ydynt yn ffoaduriaid, felly mae gan Brifysgol Caerdydd ac Undeb y Myfyrwyr gyfrifoldeb i ddileu'r rhwystr hwn i addysg uwch. Mae'r cynnig yn ddatganiad o undod ar gyfer ymfudo gorfodol ym mhobman gan ei gwneud yn glir bod croeso i fyfyrwyr sy'n ffoaduriaid. Doedd dim siaradwyr eraill yn erbyn. Crynodeb Cyflwynodd Albert grynoded o'r cynnig.



	<i>Mae'r cynnig yn pasio</i>
10.	Unrhyw fusnes arall Mae Enwebiadau ar gyfer Etholiadau'r Gwanwyn yn agor dydd Mercher 1 ^{af} Rhagfyr 2021.



EITEM TRI

Bydd Llywydd Undeb y Myfyrwyr, Gina Dunn, yn cyflwyno negeseuon allweddol yr adroddiad, gan dynnu sylw at ddatblygiadau, cyflawniadau, a newidiadau arwyddocaol o fewn y sefydliad ar gyfer blwyddyn academiaidd 2021-22.



EITEM PEDWAR

Adroddiad Ariannol

Mae'r ymddiriedolwyr, sydd hefyd yn gyfarwyddwyr yr elusen at ddibenion Deddf Cwmnïau 2006, yn cyflwyno eu hadroddiad gyda datganiadau ariannol yr elusen a'i his-gwmni ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2022. Mae'r ymddiriedolwyr wedi mabwysiadu darpariaethau Cyfrifo ac Adrodd gan Elusennau: Datganiad o Arferion a Argymhellir sy'n berthnasol i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adroddiadau Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) (yn weithredol 1 Ionawr 2019).

AMCANION A GWEITHGAREDDAU

Amcanion yr elusen yw hyrwyddo addysg myfyrwyr ym Mhrifysgol Caerdydd er budd y cyhoedd drwy:

- Hyrwyddo buddiannau a lles myfyrwyr ym Mhrifysgol Caerdydd yn ystod eu cwrs astudio trwy gynrychioli, cefnogi a chynghori myfyrwyr.
- Bod yn sianel gynrychioliadol gdnabyddedig rhwng myfyrwyr a Phrifysgol Caerdydd ac unrhyw gyrff allanol eraill; a
- Darparu gweithgareddau a fforymau cymdeithasol, diwylliannol, chwaraeon a hamdden ar gyfer trafodaethau a dadleuon ar gyfer datblygiad personol myfyrwyr.

Wrth lunio amcanion yr Undeb am y flwyddyn a chynllunio ei weithgareddau, mae'r ymddiriedolwyr wedi ystyried canllawiau atodol cyffredinol a pherthnasol y Comisiwn Elusennau ar fudd cyhoeddus. Er mwyn cyflawni'r nodau hyn er budd y cyhoedd, mae'r Undeb wedi sefydlu adrannau a gwasanaethau i'w haelodau eu defnyddio ac mae'n gweithio gyda'r Brifysgol a sefydliadau eraill ar ran myfyrwyr Prifysgol Caerdydd.

Mae'r Undeb yn gosod ei flaenoriaethau hirdymor yn unol â'i gynllun strategol, sy'n cael eu hadolygu o bryd i'w gilydd a'u llywio gan ymchwil a wneir gyda myfyrwyr Prifysgol Caerdydd. Mae'r ymddiriedolwyr yn ystyried y cynllun strategol wrth osod amcanion blynyddol yr Undeb, wedi'i fynegi mewn cerdyn sgorio cytbwys ac yn cael ei ddilyn gan ymddiriedolwyr a staff yr Undeb. Ym mis Rhagfyr 2021 lansiodd yr Undeb ei gynllun strategol cyfredol ar gyfer 2021 i 2025, o'r enw 'Calon Bywyd Myfyrwyr Caerdydd' a gellir ei weld yn: <https://www.cardiffstudents.com/about-cusu/plans/>

ADOLYGIAD ARIANNOL

Cyfanswm incwm y grŵp oedd £12,318,155 (2021 - £5,967,127) gyda chyfanswm gwariant o £11,064,178 (2021 £6,041,114) yn ystod y flwyddyn. Arweiniodd dad-ddirwyn y ddarpariaeth pensiwn gostyngol at gredyd i'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol o £398,444 (2021- £41,665).



Yn gyffredinol, arweiniodd hyn at incwm net o £1,652,421 (2021 - gwariant net £32,322). Mae hyn yn cynnwys gwaged cyfyngedig o £41,983 a gwaged anghyfyngedig o £1,610,438.

Ar 31 Gorffennaf 2022, roedd cronfeydd wrth gefn rhydd y grŵp (h.y. cronfeydd anghyfyngedig ac eithrio cronfeydd dynodedig nac y cynrychiolir gan asedau sefydlog a rhwymedigaeth cronfa bensiwn) yn £1,534,034 (2021 - £1,205,186) ac mae'r ymddiriedolwyr yn fodlon bod gan yr Undeb sylfaen ariannol gadarn i barhau i weithredu a dilyn ei amcanion a'i weithgareddau. Yn ogystal, daliwyd £584,998 (2021 - £543,015) pellach mewn cronfeydd cyfyngedig.

O fewn is-gwmni masnachol yr Undeb, Cardiff Union Services Limited, cynyddodd trosiant i £5,237,048 (2021 - £1,268,583) gan arwain at elw gros o £2,611,536 (2021 - £977,827). Cynyddodd costau gweinyddol i £4,191,369 (2021 - £3,536,902) yn ystod y flwyddyn. Yn gyffredinol, adroddodd yr is-gwmni masnachol elw o £1,088,843 (2021 – diffyg a adroddwyd o £547,022).

Yn ystod y flwyddyn gostyngodd rhwymedigaeth bensiwn y cwmni masnachu i £4,757,753 (2021 - £5,460,411) o ganlyniad i ddiweddariad gwerth presennol net cyfraniadau diffyg yn y dyfodol a chyfrifo am daliadau diffyg a wnaed yn ystod y flwyddyn. Mae'r diffyg yn deillio o rwymedigaethau'r cwmni yn y dyfodol tuag at Gynllun Pensiwn Undeb y Myfyrwyr (SUSS), a gaewyd i groniad yn y dyfodol yn 2011. Mae'r ymddiriedolwyr a'r cyfarwyddwyr yn fodlon bod ganddynt yr arian i fodloni'r rhwymedigaethau i'r gronfa wrth iddynt ddod yn ddyledus dros oes cynllun adfer y diffyg a drefnwyd hyd at 2035.

POLISI CRONFEYDD WRTH GEFN

Mae'r ymddiriedolwyr yn adolygu sefyllfa cronfeydd wrth gefn yr Undeb yn flynyddol ac yn gosod targedau ar gyfer lefelau wrth gefn yn unol ag anghenion y dyfodol, pe na bai cyllid ar gael o'r prif ffynonellau ariannu. Mae polisi cronfeydd wrth gefn yr Undeb yn nodi y bydd yr Undeb yn cyllidebu i gyflawni gwagedion yn flynyddol o'i weithgareddau cyfunol i adeiladu cronfeydd wrth gefn anghyfyngedig o £1.3m erbyn 2023. Diffinnir cronfeydd rhydd wrth gefn fel 'cronfeydd anghyfyngedig nad ydynt yn cael eu cynrychioli gan asedau sefydlog'.

Ar 31 Gorffennaf 2022 roedd cronfeydd wrth gefn rhydd y rhiant-elusen yn £2,748,766 (2021 - £2,220,497) ac ar gyfer y grŵp sefyllfa gyfunol o £1,534,034 (2021 - £1,205,186).

BUSNES HYFYW

Ar ôl gwneud ymholiadau priodol, mae gan yr ymddiriedolwyr ddisgwyliad rhesymol bod gan yr Undeb adnoddau digonol i barhau mewn bodolaeth weithredol am y dyfodol rhagweladwy. Am y rheswm hwn, maent yn parhau i fabwysiadu'r sail busnes gweithredol ar gyfer paratoi'r datganiadau



ariannol. Ceir rhagor o fanylion ynghylch mabwysiadu'r sail busnes gweithredol yn y polisiau cyfrifyddu.

CARDIFF UNIVERSITY STUDENTS' UNION

**CONSOLIDATED STATEMENT OF FINANCIAL ACTIVITIES
(INCORPORATING AN INCOME AND EXPENDITURE ACCOUNT)
FOR THE YEAR ENDED 31 JULY 2022**

	Notes	Unrestricted fund £	Restricted funds £	2022 Total funds £	2021 Total Funds £
INCOME AND ENDOWMENTS FROM					
Donations and legacies	3	3,261,417	1,198,974	4,460,391	3,112,250
Charitable activities	6	2,619,808	-	2,619,808	1,162,243
Other trading activities	4	5,237,048	-	5,237,048	1,268,583
Investment income	5	363	-	363	127
Other income		545	-	545	423,924
Total		11,119,181	1,198,974	12,318,155	5,967,127
EXPENDITURE ON					
Raising funds	8	6,821,814	-	6,821,814	3,825,587
Charitable activities	9	3,744,630	497,734	4,242,364	2,215,527
Total		10,566,444	497,734	11,064,178	6,041,114
NET INCOME / (EXPENDITURE)		552,737	701,240	1,253,977	(73,987)
Unwinding of discounted pension provision		398,444	-	398,444	41,665
Net income/(expenditure) for the year		951,181	701,240	1,652,421	(32,322)
Transfer between funds		659,257	(659,257)	-	-
		1,610,438	41,983	1,652,421	(32,322)
RECONCILIATION OF FUNDS					
Total funds brought forward		7,666,810	543,015	8,209,825	8,242,147
TOTAL FUNDS CARRIED FORWARD		9,277,248	584,998	9,862,246	8,209,825



CARDIFF UNIVERSITY STUDENTS' UNION

**CONSOLIDATED AND CHARITY BALANCE SHEET
31 JULY 2022**

		Group		Charity	
	Notes	2022 £	2021 £	2022 £	2021 £
FIXED ASSETS					
Tangible assets	15	12,155,967	11,922,035	29,351	35,281
Investments	16	73,563	73,563	2,000	2,000
		<u>12,229,530</u>	<u>11,995,598</u>	<u>31,351</u>	<u>37,281</u>
CURRENT ASSETS					
Stocks	17	108,518	59,203	-	-
Debtors: amounts falling due within one year	18	966,428	435,965	963,209	730,212
Cash at bank		<u>3,480,876</u>	<u>3,001,250</u>	<u>3,094,600</u>	<u>2,678,454</u>
		<u>4,555,822</u>	<u>3,496,418</u>	<u>4,057,809</u>	<u>3,408,666</u>
CREDITORS					
Amounts falling due within one year	19	(2,023,686)	(1,630,117)	(697,040)	(647,155)
		<u>2,532,136</u>	<u>1,866,301</u>	<u>3,360,769</u>	<u>2,761,511</u>
NET CURRENT ASSETS					
		<u>2,532,136</u>	<u>1,866,301</u>	<u>3,360,769</u>	<u>2,761,511</u>
TOTAL ASSETS LESS CURRENT LIABILITIES		<u>14,761,666</u>	<u>13,861,899</u>	<u>3,392,120</u>	<u>2,798,792</u>
CREDITORS					
Amounts falling due after more than one year	20	(141,667)	(191,663)	-	-
PENSION LIABILITY	23	(4,757,753)	(5,460,411)	-	-
		<u>9,862,246</u>	<u>8,209,825</u>	<u>3,392,120</u>	<u>2,798,792</u>
NET ASSETS		<u>9,862,246</u>	<u>8,209,825</u>	<u>3,392,120</u>	<u>2,798,792</u>
FUNDS	25				
Revaluation reserve		9,786,047	10,388,265	-	-
Pension reserve		(4,757,753)	(5,460,411)	-	-
Unrestricted funds – Designated		2,714,920	1,533,770	374,351	35,281
Unrestricted funds - General		1,534,034	1,205,186	2,403,768	2,220,496
Restricted funds		<u>584,998</u>	<u>543,015</u>	<u>614,001</u>	<u>543,015</u>
TOTAL FUNDS		<u>9,862,246</u>	<u>8,209,825</u>	<u>3,392,120</u>	<u>2,798,792</u>

EITEM PUMP



Ymlyniadau

Ffi Ymgysylltiad UCM: £37,500.00

Ffi Ymgysylltiad BUCS: £20,479.25

- Mae llawer o'n clybiau a chymdeithasau chwaraeon cofrestredig yn gysylltiedig a chyrrff llywodraethu cenedlaethol chwaraeon a diwylliannol amrywiol.



EITEM SAITH

A) Cynigion sy'n dirwyn i ben

Mae'r cynigion canlynol a basiwyd yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol bellach wedi dod i ben. Cyflwynir y rhain er gwybodaeth yn unig. Pasiwyd pob cynnig yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Tachwedd 2019.

Mabwysiadu safbwynt swyddogol o blaid yr hawl i ddewis (*Sylwer: mae cynnig ar yr un pwnc neu bwnc tebyg wedi'i gyflwyno i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol eleni*)

Polisi Amgylcheddol Radical (*Sylwer: mae cynnig ar yr un pwnc neu bwnc tebyg wedi'i gyflwyno i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol eleni*)

Streic UCU (*Sylwer: mae cynnig ar yr un pwnc neu bwnc tebyg wedi'i gyflwyno i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol eleni*)

Ymrwymiad i fynd i'r afael â hiliaeth sefydliadol yng Nghaerdydd

Gwneud Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd yn Gyflogwr Cyflog Byw

Gweler yr adran hon o'r wefan am yr holl bolisiâu - <https://www.cardiffstudents.com/your-voice/policy/>



B) Cynigion a Gyflwynwyd

CYNNIG UN

Mabwysiadu Safbwynt Swyddogol o Blaid yr Hawl i Ddewis

Noda'r CCB

1. Tan 2019, nid oedd gan Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd safbwynt ar hawliau erthyliad ac ymreolaeth gorfforol.
2. Yn y gorffennol, bu camwybodaeth am y weithdrefn feddygol o erthyliad a ledaenir gan gymdeithasau cysylltiedig ag Undeb y Myfyrwyr yn ogystal ag yn y cyfryngau cyffredinol.
3. Yn y gorffennol, mae camwybodaeth am yr effeithiau sy'n deillio o gario beichiogrwydd dieisiau i dymor wedi cael eu lledaenu gan gymdeithasau cysylltiedig ag Undeb y Myfyrwyr yn ogystal ag yn y cyfryngau cyffredinol.
4. Mae tystiolaeth sylweddol sy'n dangos effeithiau andwyol cario beichiogrwydd dieisiau.
5. Mae gan Undeb y Myfyrwyr ymwybyddiaeth amlwg o faterion eraill sy'n ymwneud ag iechyd megis iechyd meddwl, anhwylderau bwyta, iechyd rhywiol, ac un dudalen we ar "Cymorth Beichiogrwydd".
6. Ers i Undeb y Myfyrwyr fabwysiadu safbwynt o blaid yr hawl i ddewis yn 2019, mae'r dudalen we "Cymorth Beichiogrwydd" wedi gwella'n aruthrol bellach gan fanylu: ble i gael profion beichiogrwydd; sut mae profion beichiogrwydd yn gweithio; opsiynau o ran parhau â beichiogrwydd neu derfynu beichiogrwydd; dolenni i elusennau, gyda rhai yn cefnogi gyda'r cyntaf a rhai gyda'r olaf sydd yn rhoi agwedd gytbwys; polisi'r brifysgol ynghylch beichiogrwydd; ac yn olaf, dewisiadau gohirio astudiaethau ac amgylchiadau esgusodol.
7. Er bod y wybodaeth am feichiogrwydd ac erthyliad wedi gwella ar wefan Undeb y Myfyrwyr, mae diffyg eglurder o hyd o ran y wybodaeth a'r cymorth sydd ar gael ar gyfer camesgoriadau.
8. Mae 'Cynllun Cydraddoldeb Strategol Prifysgol Caerdydd, 2016-2020', a gyhoeddwyd yn 2016, yn nodi mai Amcan 2 (tudalen 12) yw "Denu a chadw'r myfyrwyr disgleiriaf o amrywiaeth o gefndiroedd trwy ddarparu amgylchedd dysgu ac addysgu cynhwysol a chefnogol". 9. Mae "Beichiogrwydd a Mamolaeth" yn nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.
10. Mae ymreolaeth gorfforol a mynediad at erthyliadau diogel a chyfreithlon yn hawl ddynol o dan y Cenhedloedd Unedig.
11. Bu adlach allanol sylweddol ers y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol blaenorol yn 2019, pan fabwysiadodd Undeb y Myfyrwyr safbwynt swyddogol o blaid yr hawl i ddewis wrth iddo gael ei basio'n ddemocrataidd. Roedd sefydliadau yn erbyn yr hawl i ddewis nad ydynt yn



fyfyrwyr, megis cangen y DU o'r Ganolfan Diwygio Bio-foesegol (CBR UK), wedi troi at wybodaeth anghywir, gan arddangos deunydd graffig camarweiniol y tu allan i Undeb y Myfyrwyr (gan achosi trallod i lawer o fyfyrwyr), bwlio, ac aflonyddu i roi pwysau ar fyfyrwyr ac Undeb y Myfyrwyr i wrthdroi ein safbwynt o blaid yr hawl i ddewis sydd wedi'i basio'n ddemocrataidd.

12. Fe wnaeth rhai sefydliadau ac unigolion allanol yn erbyn yr hawl i ddewis fygwth a lledaenu anwireddau ynghylch myfyrwyr o blaid yr hawl i ddewis a oedd yn ymwneud â chynnig a/neu gefnogi'r cynnig yn 2019. O ganlyniad, amharodd hyn ar astudiaethau a bywydau'r myfyrwyr hyn ym Mhrifysgol Caerdydd oherwydd bygythiadau marwolaeth a gweithredoedd tebyg. Mae bygythiadau marwolaeth yn erbyn y gyfraith fel y nodir yn Neddf Troseddau yn erbyn y Person 1861.

13. Ers i Undeb y Myfyrwyr fabwysiadu safbwynt swyddogol o blaid yr hawl i ddewis yn 2019, bu amgylchedd mwy cynhwysol a chefnogol sy'n ffafriol i ddysgu. Mae myfyrwyr sy'n feichiog yn teimlo'n fwy grymus i wneud y dewis sydd orau iddyn nhw a'u dyfodol gan wybod eu bod yn cael eu cefnogi gan Undeb y Myfyrwyr a'u cyd-myfyrwyr, beth bynnag y maen nhw'n ei ddewis. Bu gwelliant hefyd yn y wybodaeth sydd ar gael a llai o wybodaeth anghywir wedi'i lledaenu ynghylch beichiogrwydd ac erthyliad.

Cred y CCB

1. Yn yr amseroedd gwleidyddol gwefreiddiol hyn pan fo grwpiau yn erbyn yr hawl i ddewis wedi gwthio deddfwriaeth o gwmpas y byd (yn enwedig yng Ngwlad Pwyl ac Unol Daleithiau America) i wahardd pob erthyliad, hyd yn oed mewn achosion o dreisio a llosgach, mae'n hollbwysig bod Undeb y Myfyrwyr yn parhau i gynnal ei safbwynt egalitariaidd presennol o blaid yr hawl i ddewis ac yn parhau yn unol â'i hethos o gydraddoldeb.
2. Mae'n hanfodol parhau i gydnabod yn swyddogol bod yr hawl i gadw neu derfynu beichiogrwydd yn hawl ddynol sylfaenol ac nid yw cydnabod hyn yn erbyn rhyddid barn fwy nag y mae cydnabod cydraddoldeb rhwng ethnigrwyddau, er bod llawer yn eirioli yn ei erbyn – nid yw'n mynd yn groes i ryddid barn i gymryd y safbwynt o gydraddoldeb.
3. Dylai fod gwybodaeth fwy hygyrch ar wefan Undeb y Myfyrwyr am gamesgoriadau sy'n gywir yn feddygol ac y ceir cyfeiriadau academiaidd atynt.
4. Dylid ymchwilio i unrhyw camwybodaeth a ledaenir am iechyd atgenhedlol, neu unrhyw weithgareddau a gynhelir yn erbyn polisïau Undeb y Myfyrwyr gan gymdeithasau cysylltiedig ag Undeb y Myfyrwyr.
5. Mae ein safbwynt o blaid yr hawl i ddewis yn sicrhau iechyd meddwl a lles unrhyw bobl sy'n feichiog, sydd â'r potensial i feichiogi neu sydd â'r potensial i gael rhywun arall yn feichiog p'un a fyddent yn bersonol yn cadw neu'n derfynu'r beichiogrwydd gan fod y safbwynt hwn yn cefnogi hawl y person beichiog i ddewis.



6. Gan gadw mewn cof Amcan 2 o Gynllun Cydraddoldeb Strategol Prifysgol Caerdydd, 2016-2020 yn ogystal â'r cynllun cydraddoldeb wedi'i ddiweddarau, mae angen ystyried bod angen amgylchedd o blaid yr hawl i ddewis ar lawer o fyfyrwyr er mwyn i addysg fod yn hygyrch ac yn gynhwysol. Mae llawer o fyfyrwyr wedi cael neu byddent wedi cael erthyliad i gyflawni eu nodau i gyrraedd a chwblhau astudiaethau yma ym Mhrifysgol Caerdydd. Efallai bod rhai wedi ei ystyried, wedi penderfynu cario'r beichiogrwydd i dymor ac wedi ffynnu yn ein prifysgol. Y naill ffordd neu'r llall mae'r dewisiadau hyn yn hynod bersonol ac felly mae parhau i gefnogi hawliau myfyrwyr i ddewisiadau atgennhedlu yn swyddogol yn darparu amgylchedd llawer mwy cynhwysol.

7. Gan fod "Beichiogrwydd" yn nodwedd warchodedig (o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010), ni ddylai'r ymreolaeth gorfforol a roddir i bawb arall gael ei dwyn oddi wrth bobl feichiog gan fod hynny'n wahaniaethol, ac felly dylai safbwynt Undeb y Myfyrwyr barhau i adlewyrchu hyn.

8. Mae beichiogrwydd ac erthyliad yn effeithio ar fenywod amlaf, ac mae peidio â gweithredu i amddiffyn pobl rhag gwahaniaethu ar sail beichiogrwydd ac erthyliad yn gweig-gasaol. Byddai unrhyw fath o rywiaeth yn gwrth-ddweud gwerthoedd craidd Undeb y Myfyrwyr o gynhwysiant a chydaddoldeb fel y nodir yn nogfen UMPC "Ein Strategaeth 2018-2021" (yn ogystal â'r gwerthoedd a nodir yn y ddogfen wedi'i diweddarau, "Ein Strategaeth 2021-2025").

9. Pan fydd dynion traws a phobl anneuaidd AFAB* yn profi materion yn ymwneud â beichiogrwydd ac erthyliad, gall hwn fod yn gyfnod arbennig o fregus, ac felly nid yw peidio â'u hamddiffyn yn cyd-fynd â pholisïau a chredoau Undeb y Myfyrwyr ynghylch cynhwysiant pobl traws. Mae cynhwysiant pobl traws yn bwysig i Brifysgol Caerdydd fel y nodir ym Mholisi Traws Prifysgol Caerdydd (a gyhoeddwyd yn 2018).

10. Ni ddylai ein myfyrwyr ac Undeb y Myfyrwyr gael eu targedu na'u cosbi gan sefydliadau allanol sydd yn erbyn yr hawl i ddewis am basio cynnig yn ddemocrataidd, yn enwedig nid cynnig sy'n cyd-fynd â barn y mwyafrif o blaid yr hawl i ddewis yn y DU.

11. Ni ddylai myfyrwyr gael eu targedu, eu bygwth na'u haflonyddu am arfer eu hawl ddemocrataidd i gynnig, trafod neu gefnogi safbwynt swyddogol Undeb y Myfyrwyr o blaid yr hawl i ddewis.

12. Mae safbwynt Undeb y Myfyrwyr o blaid yr hawl i ddewis wedi gwella'r amgylchedd, diwylliant, a chynwysoldeb o fewn yr Undeb, a byddai peidio â chynnal y safbwynt yn golygu ein bod yn colli hynny a'r holl gynnydd sydd wedi'i wneud.

[*a bennwyd yn fenywaidd pan gawsant eu geni]

Penderfyna'r CCB



1. Bydd Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd yn cyhoeddi eu bod yn cynnal eu safiad o blaid yr hawl i ddewis yn gyhoeddus ac yn datgan yn glir ar dudalen we UMPC “Cymorth Beichiogrwydd” ac unrhyw dudalennau gwe perthnasol eraill megis ar y dudalen we “Polisi”.
2. Cynnal y derminoleg sy'n ymwneud â beichiogrwydd ac erthyliad ledled Undeb y Myfyrwyr i sicrhau ei bod yn parhau i fod yn ddiuedd ac yn gywir yn feddygol ac ychwanegu mwy o wybodaeth ynghylch camesgor (cefnogaeth, polisi, ac ati).
3. Cadw'r dolenni cytbwys i'r wybodaeth ddiweddaraf am feichiogrwydd ac erthyliad ar wefan UMPC.
4. Gwybodaeth gyfredol am feichiogrwydd, erthyliad a ble i geisio cymorth meddygol ar gefn drysau stondin toiledau'r UM i sicrhau bod myfyrwyr mewn perthnasoedd camdriniol hefyd yn cael mynediad at y wybodaeth.
5. Bydd yr Is-lywydd Lles ac Ymgyrchoedd yn parhau i fod yn gyfrifol am sicrhau bod ymgyrchoedd a strategaethau Undeb y Myfyrwyr yn cefnogi'r safbwynt o blaid yr hawl i ddewis i ddarparu amgylchedd cyfartal, diogel a chynhwysol i fyfyrwyr.
6. Bydd yr Is-lywydd Lles ac Ymgyrchoedd, mewn cydweithrediad â'r swyddogion lechyd Meddwl, Menywod a LHDT+, yn creu ymgrych ymwybyddiaeth o blaid dewis blynyddol sy'n amlygu pwysigrwydd mynediad at erthyliad diogel a chyfreithlon gan ddefnyddio gwybodaeth a gefnogir gan ystadegau a/neu feddygol.
7. Bydd yr Is-lywydd Cymdeithasau a Gwirfoddoli yn parhau i fod yn gyfrifol am sicrhau nad yw cymdeithasau sy'n gysylltiedig ag Undeb y Myfyrwyr yn lledaenu gwybodaeth anghywir am erthyliad a beichiogrwydd nac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sydd yn erbyn polisi UM.
8. Dylai Undeb y Myfyrwyr a Phrifysgol Caerdydd gydweithio i sicrhau bod myfyrwyr yn deall eu hawliau i ymreolaeth gorfforol ac erthyliad.
9. Bydd Undeb y Myfyrwyr yn condemnio'n gyhoeddus sefydliadau sydd yn erbyn yr hawl i ddewis sy'n weithredol yn ceisio ymyrryd yn ein democratiaeth gyda'r nod o ormesu hawliau myfyrwyr a safbwyntiau o blaid dewis, yn enwedig y rhai sy'n troi at fwlio, aflonyddu a chamwybodaeth. Bydd Undeb y Myfyrwyr hefyd yn cadw'n gyfredol ac yn gorfodi rheoliadau a chyfreithiau sy'n berthnasol i atal sefydliadau allanol rhag gallu cael mynediad at fyfyrwyr ar y ffyrdd cyhoeddus rhwng y campws ac arddangos deunydd graffig camarweiniol wedi'i chwythu i fyny.
10. Bydd Undeb y Myfyrwyr yn gwerthuso'n drylwyr y cymorth sydd ar gael i fyfyrwyr sy'n cael eu targedu a'u bygwth gan sefydliadau ac unigolion allanol sydd yn erbyn yr hawl i ddewis. Dylai Undeb y Myfyrwyr gynyddu'r cymorth sydd ar gael mewn nod i liniaru'r effaith niweidiol ar fyfyrwyr yn sgil gweithredoedd y partion allanol hyn.



11. Bydd Undeb y Myfyrwyr, yn enwedig yr Is-lywydd Lles ac Ymgyrchoedd, yn adeiladu ar y cynnydd cadarnhaol y mae'r safbwynt hwn wedi'i wneud ers 2019, nid yn unig i gynnal yr hyn sydd wedi'i newid ond hefyd i barhau i ymdrechu am amgylchedd lle mae eglurder, gwybodaeth, cefnogaeth a dewisiadau diduedd ynghylch beichiogrwydd ac erthyliad tra'n parchu'n llawn hawl yr unigolyn i ddewis.

Cynigydd: Isadora Sinha

Eilydd: Anna Webberley



CYNNIG DAU

Camau er budd yr hinsawdd ac atebolrwydd: Gwneud Sero Net yn Realiti

Noda'r CCB

1. Mae dod â'r Polisi Amgylcheddol Radicalaidd i ben, polisi a basiwyd dair blynedd yn ôl, yn golygu bod angen ymrwymïadau amgylcheddol pellach amom i sicrhau ein bod yn cyflawni ein dyletswyddau fel sefydliad eco-ymwybodol.
2. Bod Prifysgol Caerdydd yn safle 44^{ain} yn y DU am effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd
3. Bod Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd, sydd wedi'i leoli yn un o ddinasoedd gwyrddaf y DU, mewn safle unigryw i hyrwyddo agenda werdd

Cred y CCB

1. Mae'r ymrwymiad hwnnw i'r amgylchedd yn flaenoriaeth i unrhyw undeb sy'n ymwybodol o'r dyfodol a bod yn rhaid i ni yn naturiol gymryd camau i fynd i'r afael â'n heffaith amgylcheddol.
2. Bod y Brifysgol yn gallu gwneud yn well na safle 44^{ain} a bod yn rhaid i UMPC chwarae rhan mewn gwthio i sicrhau hyn.

Penderfyna'r CCB

1. Ymgorffori nodau datblygu cynaliadwy yn y broses o wneud penderfyniadau Undeb y Myfyrwyr, yn mowld y 7 maes a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a chan ganolbwyntio'n benodol ar yr hyn y gellir ei wneud i leihau niwed amgylcheddol y gellir ei osgoi.
2. Ymrwymo Undeb y Myfyrwyr i glirio gweithredoedd o dan bedwar pennawd allweddol, a nodir isod:
 - 2.1. Ymrwymiad i ynni adnewyddadwy, cynaliadwyedd a bioamrywiaeth
 - 2.1.1. 2.1.1. Bod yn rhaid i UM Caerdydd ddatblygu a gweithredu strategaeth i ddatgarboneiddio ei leoliadau cyn gynted â phosibl. Mae gan safleoedd ar Blas y



Parc sgôr tystysgrif perfformiad ynni (EPC) mor isel â D, heb unrhyw ddarpariaeth ar gyfer ynni adnewyddadwy (Atodiad 1). Bydd llwyddiant yn cael ei fesur drwy sicrhau sgôr tystysgrif perfformiad ynni o A neu fwy ar gyfer holl safleoedd yr UM. Gallai cyflawni hyn olygu defnyddio ynni adnewyddadwy, technolegau storio ynni a mesurau i leihau'r galw am ynni megis insiwleiddio. Gallai hyn hefyd olygu addysgu defnyddwyr adeiladau, gan gynnwys staff a myfyrwyr, i atal gwastraff ynni. Mae'r amser i weithredu nawr, nid yn unig i gyflawni Sero Net ond hefyd i fynd i'r afael â sut mae'r UM yn agored i gostau unedau ynni cynyddol yn y sector annomestig. Ymrwymiad i fuddsoddi moesegol, lle y cynhelir buddsoddiadau ac arferion bancio mewn modd economaidd hyfwrdd ac amgylcheddol gyfrifol

- 2.1.2. Ymdrechu i gynhyrchu bwyd yn gynaliadwy, lle mae polisi a chaffael bwyd yn cynnwys eitemau teg, moesegol ac ecogyfeillgar lle bo hynny'n bosibl - a chyflawni gwobr Food for Life Served Here gan y Soil Association

- 2.2. Sicrhau bod cadwyni Cyflenwi yn deg, yn foesegol ac yn gynaliadwy

- 2.2.1. Dod o hyd i gynhyrchion wedi'u hailddefnyddio/ailgylchu yn unig lle bo hynny'n bosibl, fel papur, plastigau a deunyddiau ailgylchadwy eraill

- 2.2.2. Cyhoeddi cynllun manwl ar gyfer gweithio tuag at bolisi dim gwastraff.

- 2.3. Sicrhau bod gwasanaethau sy'n cael eu rhedeg gan Undeb y Myfyrwyr wedi cael eu hasesu am eu heffaith amgylcheddol

- 2.3.1. Sicrhau bod gwasanaethau trafnidiaeth yn newid i gerbydau trydan

- 2.3.2. Hyrwyddo'r defnydd o Deithio Llesol ar draws campysau'r brifysgol

- 2.4. Atebolrwydd sero net

- 2.4.1. Lloio'r brifysgol i greu rôl swydd benodol sy'n gyfrifol am gyflawni sero net

- 2.4.2. Sefydlu Pwyllgor Effaith Amgylcheddol, gan gynnwys Uwch Arweinyddiaeth Prifysgolion, Cynrychiolwyr Undeb y Myfyrwyr, a grwpiau myfyrwyr i fod yn atebol am addewidion Sero Net

Cynigydd: James Barber

Eilydd: Darcie Stimpson



Atodlen: Tystysgrif Ynni i'w Harddangos UMPC

19/11/2022, 10:33

Display energy certificate (DEC) – Find an energy certificate – GOV.UK

Display energy certificate (DEC)



Cardiff Union Services Ltd
Cardiff Union Services Ltd
University Union, Park Place
CARDIFF
CF10 3QN

Operational rating

D

Certificate number: 0015-5236-8102-2112-0164

Valid until: 30 May 2023

Total useful floor area: 12853.23 square metres

Energy performance operational rating

The building's energy performance operational rating is based on its carbon dioxide (CO₂) emissions for the last year.

It is given a score and an operational rating on a scale from A (lowest emissions) to G (highest emissions).

The typical score for a public building is 100. This typical score gives an operational rating of D.

Score	Operational rating	This building	Typical
0-25	A		
26-50	B		
51-75	C		
76-100	D	84 D	100
101-125	E		
126-150	F		
150+	G		

This building's energy use		
Energy use	Electricity	Other fuels
Annual energy use (kWh/m ² /year)	36.48	269.89
Typical energy use (kWh/m ² /year)	84.76	202.25
Energy from renewables	0%	0%

Previous operational ratings	
Date	Operational rating
May 2022	84 D
May 2021	51 C
May 2020	67 C

Total carbon dioxide (CO ₂) emissions			
This tells you how much carbon dioxide the building emits. It shows tonnes per year of CO ₂ .			
Date	Electricity	Heating	Renewables
May 2022	258	673	0
May 2021	345	247	0
May 2020	705	211	0

Assessment details	
Assessor's name	Felicity Thomas
Employer/Trading name	Felicity Thomas
Employer/Trading address	22 High Street, Caerleon, Newport, NP18 1AG
Assessor's declaration	Not related to the occupier.
Accreditation scheme	Elmhurst Energy Systems Ltd
Issue date	9 September 2022
Nominated date	31 May 2022

CYNNIG TRI

Gweithredu diwydiannol gan UCU

Noda'r CCB

1. Mae sector Addysg Uwch (AU) y DU yn parhau i wynebu argyfwng o amodau gwaith gwael ar gyfer staff academiaidd, staff gwasanaethau proffesiynol, tiwtoriaid Ôl-raddedig a llawer o aelodau staff eraill. Mae'r argyfwng hwn yn digwydd yn eich prifysgol bob dydd, a dim ond wedi gwaethygu gan y Pandemig Coronafeirws.
2. Mae o leiaf 600 o fyfyrwyr yn addysgu ym Mhrifysgol Caerdydd ar hyn o bryd — mae'r rhain yn fyfyrwyr sy'n gweithio am gyfradd fesul awr ac sy'n ymgysylltu'n achlysurol â'r Brifysgol, yn hytrach na'u cyflogi. O ganlyniad, nid oes ganddynt dâl salwch, absenoldeb rhieiniol, contractau na hawliau gweithlu sylfaenol eraill. ¹
3. Yn dilyn pleidlais ddemocrataidd ledled y wlad a ddaeth i ben am 5pm ar 21 Hydref, mae Undeb y Prifysgolion a Cholegau (UCU) wedi pleidleisio o blaid streicio (Ffigur 1).

Cyflog ac amodau	Ydw (%)	Nac ydw (%)	Y rhai a bleidleisiodd (%)
A ydych yn barod i weithredu'n ddiwydiannol sy'n cynnwys streic?	81.14	18.86	57.71
A ydych yn barod i weithredu'n ddiwydiannol sy'n cynnwys gweithredu sy'n brin o streicio (sydd at y diben hwn yn cael ei ddiffinio i gynnwys gwaharddiadau goramser a galw allan)?	88.75	11.25	57.71

USS	Ydw (%)	Nac ydw (%)	Y rhai a bleidleisiodd (%)
A ydych yn barod i weithredu'n ddiwydiannol sy'n cynnwys streic?	84.88	15.12	60.23



A ydych yn barod i weithredu'n ddiwydiannol sy'n cynnwys gweithredu sy'n brin o streicio (sydd at y diben hwn yn cael ei ddiffinio i gynnwys gwaharddiadau goramser a galw allan)?	90.14	9.86	60.23
--	-------	------	-------

Ffigwr 1: Tabl yn arddangos canlyniadau ledled y wlad o bleidleisiau a gynhaliwyd gan Undeb y Prifysgolion a Cholegau (UCU) ym mis Hydref 2022. ²

4. Mae Streic UCU mewn mannau eraill yn ymwneud â phensiynau a 'Phedair Brwydr' sydd fel a ganlyn:
 - i. Ansicrwydd — Mae prifysgolion yn dibynnu ar nifer sylweddol o staff, llawer o ôl-raddedigion, ar gontractau ansicr neu achlysurol nad ydynt yn darparu amodau gwaith diogel neu gynaliadwy. Mae llawer o staff hefyd yn cael eu cyflogi drwy oriau amrywiol, contractau cyfnod penodol a thros dro, gan gyfrannu at ddiffyg sicrwydd swydd. ³
 - ii. Anghydraddoldeb — 18.9% ⁴ oedd bwlch cyflog Prifysgol Caerdydd rhwng y rhywiau yn 2020; mae UCU yn mynnu camau pendant i gau bylchau cyflog rhwng y rhywiau ac ethnigrwydd yn ein sefydliadau
 - iii. Cyflogau - Yn genedlaethol, mae staff y Brifysgol wedi wynebu gostyngiad mewn cyflogau o 17.6% ers 2009. £8.70 yw cyfradd fesul awr yr athrawon sy'n cael y cyflogau isaf mewn Addysg Uwch. ⁵
 - iv. Llwyth gwaith - Drwy gydol y sector Addysg Uwch (AU) yn y DU, mae pedwar o bob pum aelod o staff prifysgol a holwyd yn cael trafferth gyda llwyth gwaith ac roedd 86% o'r staff a arolygwyd wedi cael eu cyfeirio tuag at gymorth ar gyfer iechyd meddwl oherwydd llwyth gwaith. Yn ôl arolwg a gynhaliwyd gan UCU Caerdydd, adroddodd 93% o staff academiaidd wythnosau gwaith o fwy na 35 awr (oriau cytundebol safonol ym Mhrifysgol Caerdydd). ⁶
5. Y llynedd, pleidleisiodd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol dros sefyll mewn undod ag UCU. Ar ôl pleidlais lwyddiannus i Gaerdydd ym mis Ebrill, trafododd UCU gyda'r brifysgol ac o ganlyniad, ni effeithiodd y streic ar fyfyrwyr. ⁷
6. Digwyddodd streic hefyd yn 2019-2020 mewn anghydfod ynghylch cynllun pensiwn USS lle'r oedd pensiynau staff yn mynd i gael eu torri gan dros hanner. Er enghraifft, byddai pensiwn blynyddol o £14,843 i academydd 40 oed, gyda 30 mlynedd o brofiad addysgu yn cael ei dorri i ddim ond £8,449 y flwyddyn. ⁸
7. Cefnogodd Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr streicio yn 2018, 2019 a 2020, ac maent yn sefyll 'ysgwydd wrth ysgwydd' gyda staff yn yr anghydfodau presennol mewn Sefydliadau



Addysg Uwch eraill. Yn ddiweddar, mae UCM wedi ailadrodd eu cefnogaeth i staff sydd wedi pleidleisio dros weithredu'n ddiwydiannol.⁹

8. Yn 2018, nid oedd Undeb Myfyrwyr Caerdydd yn gallu cymryd safbwynt o fewn yr amserlen ofynnol, a wnaeth hyn ddieithrio llawer o staff a myfyrwyr. Fodd bynnag, arweiniodd safbwynt cefnogol yn 2019-20 at gefnogaeth dorfol i Weithredu Diwydiannol gan fyfyrwyr ar draws y campws.¹⁰
9. Mae gweithgor sydd yn erbyn creu mwy a mwy o swyddi achlysurol yr UCU wedi'i sefydlu'n genedlaethol gan staff y Brifysgol a myfyrwyr Ôl-raddedig. Nod y grŵp yw darparu cefnogaeth i staff ansicr ac ymwrthedd i amodau gwaith annheg ac aneffeithiol sydd wedi'u gwneud yn achlysurol. Maent wedi bod yn gweithio ers dros chwe blynedd i sicrhau statws cyflogwr (contractau) ar gyfer tiwtoriaid ac arddangoswyr Ôl-raddedig.¹¹ Ar yr adeg hon, mae'r contractau ar gyfer myfyrwyr Ôl-raddedig sy'n addysgu wedi'u drafftio a'u cymeradwyo i gael eu gweithredu'n fuan.

Cred y CCB

1. Dylai Undeb Myfyrwyr Caerdydd gefnogi Gweithredu Diwydiannol Cenedlaethol UCU sy'n digwydd yn ystod y flwyddyn academaidd 2022/2023 a sefyll yn swyddogol mewn undod â staff sy'n streicio.
2. Dylai Undeb Myfyrwyr Caerdydd gefnogi unrhyw Weithredu Diwydiannol sy'n digwydd yn lleol yng Nghaerdydd yn ystod y flwyddyn academaidd 2022/23 a sefyll yn swyddogol mewn undod â staff.
3. Mae'r Streic genedlaethol yn ymwneud â mwy na phensiynau, ond gwarchod y diwylliant gwaith o fewn Prifysgolion a'r sector Addysg Uwch (AU) ehangach. Mae'n ymwneud â gwneud safiad yn erbyn anghydraddoldeb cyflog, gwaith ansicr, anghydraddoldeb a llwyth gwaith gormodol sy'n effeithio ar ein darlithwyr, ein haddysg a llawer o fyfyrwyr ôl-raddedig sy'n addysgu ledled y wlad.
4. Ar ben hynny, mae UCU a'i aelodau wedi cefnogi myfyrwyr dros y blynyddoedd ac wedi helpu gydag ymgyrchoedd megis gwrthsefyll cynnydd mewn ffioedd dysgu a gwrthwynebu dileu grantiau cynhaliaeth. Mae hyn yn rhan o fater ehangach marchnata addysg a chreu mwy o gystadleuaeth o fewn Prifysgolion. Mae'r materion a godwyd gan UCU yn ganlyniad arall i'r marchnata hwn sy'n cael effaith andwyol ar ein myfyrwyr, ein staff, a'r gymuned ehangach



5. "Amodau dysgu myfyrwyr yw amodau gwaith staff" - Mae ein profiad myfyrwyr yn cael ei effeithio'n negyddol gan y materion cyflogaeth sy'n wynebu ein hathrawon ac aelodau o staff gwasanaethau proffesiynol ym Mhrifysgol Caerdydd.
6. Mae effeithiau amodau gwaith staff ar brofiad dysgu ein myfyrwyr yn cael eu teimlo a'u nodi'n eang. Mae hyn wedi cael ei deimlo'n arbennig o boenus yng Nghaerdydd, yn dilyn hunanladdiad hynod drasig aelod o staff yn yr Ysgol Busnes yn 2019; damcaniaethwyd y gall hyn fod yn gysylltiedig â llwyth gwaith enfawr ¹⁴. Mae'n hollbwysig ein bod yn ystyried achosion gwaelodol afiechyd meddwl yng nghymuned y Brifysgol, a sut mae llwythi gwaith afresymol yn effeithio ar bob un ohonom.
7. Mae gan Undeb Myfyrwyr Caerdydd ddyletswydd i gefnogi materion a wynebir gan fyfyrwyr Ôl-raddedig sy'n addysgu megis pwysau llwyth gwaith, contractau ansicr a diffyg hawliau/contractau cyflogaeth.
8. Os oes gan Undeb Prifysgolion a Cholegau gefnogaeth gan Undeb Myfyrwyr Caerdydd, mae hyn yn rhoi mwy o bwysau ar y Brifysgol a Phrifysgolion y DU ac UCEA (Cymdeithas Cyflogwyr y Colegau a'r Prifysgolion) sy'n cynrychioli cyflogwyr i ddod i gytundeb ag UCU. Mae hyn yn cryfhau llaw bargeinio UCU, a thrwy hynny yn dod â datrysiad cyflymach i unrhyw gyfnod o Weithredu Diwydiannol neu Weithredu sy'n Fyr o Streic.

Penderfyna'r Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol

1. Mandadu'r Tîm Swyddogion Sabothol i sefyll mewn undod ag UCU a chyhoeddi datganiad cyhoeddus o gefnogaeth ar gyfer Gweithredu Diwydiannol 2022/23 o fewn pum diwrnod gwaith ar ôl i unrhyw Weithredu Diwydiannol gael ei gyhoeddi'n ffurfiol.
2. Mandadu'r Tîm Swyddogion Sabothol i weithio gydag UCU a lloïo Bwrdd Gweithredol y Brifysgol i fodloni gofynion Staff a Myfyrwyr Ôl-raddedig y Brifysgol sy'n addysgu ynghylch y Pedwar Brwydr a Phensiynau, p'un a yw Gweithredu Diwydiannol yn cael ei ffurfioli drwy bleidlais aelod ai peidio.
3. Mandadu'r Swyddogion Etholedig i roi llwyfan cyfathrebu i UCU gyda myfyrwyr ar-lein drwy Wefan yr UM ac all-lein drwy ofod yn adeilad yr Undeb, i godi ymwybyddiaeth a hysbysu myfyrwyr am unrhyw Weithredu Diwydiannol UCU.
4. Mandadu Undeb Myfyrwyr Caerdydd, yn enwedig yr Is-lywydd Myfyrwyr Ôl-raddedig, i annog Myfyrwyr Ymchwil Ôl-raddedig yn agored i ymuno ag UCU, p'un ai fel aelod 'myfyriwr' neu aelod 'safonol am ddim' (mae cymhwysedd yn dibynnu a yw'r Myfyriwr Ôl-raddedig Ymchwil yn gwneud gwaith addysgu).



5. Mandadu Tîm y Swyddogion Sabothol i annog aelodau Ôl-raddedig cymwys o'r UCU i gyflwyno eu pleidleisiau mewn unrhyw gyfnod pleidleisio pellach o fewn y flwyddyn academiaidd 2022/23.
6. Dylai Undeb Myfyrwyr Caerdydd weithio gydag UCU i hwyluso a hyrwyddo sesiynau 'Dysgu Allan' i fyfyrwyr pe bai cyfnod o streic yn digwydd.
7. Dylai Undeb Myfyrwyr Caerdydd gynnig cymorth lles i'r holl fyfyrwyr sydd wedi cael eu heffeithio gan y streiciau.
8. Dylai Swyddogion Sabothol Undeb y Myfyrwyr lobio'r Brifysgol am ad-daliadau ffioedd am unrhyw oriau cyswllt a gollwyd oherwydd Gweithredu Diwydiannol posibl ym Mlwyddyn Academiaidd 2022/23.
8. Bydd yr Is-lywydd Myfyrwyr Ôl-raddedig yn annog myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig sy'n addysgu, sydd am gefnogi unrhyw Weithredu Diwydiannol, i ymuno ag UCU a gwneud cais i unrhyw gronfeydd caledi sydd ar gael ar gyfer y rhai sydd wedi colli incwm o ganlyniad i gymryd rhan
9. Bydd yr Is-lywydd Ôl-raddedig yn annog myfyrwyr i gefnogi ac ymgysylltu â staff mewn ralïau ac ar y llinellau piced os a phryd y bydd y rhain yn digwydd.

Cynigydd: Micaela Panes

Eilydd: Angie Flores Acuña, Eich IL Myfyrwyr Ôl-raddedig

¹ - <https://intranet.cardiff.ac.uk/?a=442409>

² - <https://www.ucu.org.uk/ucuRISING-results>

³ - <https://www.ucu.org.uk/hedisputes>

⁴ - https://www.cardiff.ac.uk/_data/assets/pdf_file/0018/2048202/2020-GPG-report.pdf

⁵ - <https://www.ucu.org.uk/article/3538/Calculation-of-hourly-rates-of-pay-for-academic-and-related-staff-in-HE-institutions>

⁶ - <https://www.cardiffucu.org.uk/2020/07/23/cardiff-ucu-covid-19-working-lives-survey-report-of-findingsjuly-2020/>

⁷ - <https://www.ucu.org.uk/article/12234/Staff-at-36-UK-universities-back-further-strike-action-in-ballot-over-pay-and-working-conditions>



- 8 - <https://www.ucu.org.uk/ussmodeller>
- 9 - <https://www.nus.org.uk/articles/nus-response-to-ucu-announcement-on-industrial-action-over-pensions>
- 10 - <https://www.cardiffstudents.com/pageassets/your-voice/democracy/agm/AGM-Agenda-2019-EN.pdf>
- 11 - <https://www.ucu.org.uk/fthpcommittee>



CYNNIG PEDWAR

Safbwynt Undeb Myfyrwyr Caerdydd ar Gwpan y Byd FIFA 2022 Prifysgol Caerdydd

Noda'r CCB

1. Ar hyn o bryd, mae gan yr Undeb gynlluniau i arddangos cwpan y byd trwy gydol y misoedd nesaf.
2. Enillwyd Cwpan y Byd yn Qatar trwy lwgrwobrwyo a llygru.
3. Dylai pêl-droed fod yn hygyrch i bawb, ond yn Qatar mae cyfunrywioldeb yn anghyfreithlon, gyda fflangellu (chwipio neu guro gyda gwialen) yn dal i fod yn fath derbyniol o gosb.
4. Adeiladwyd y stadiwm a ddefnyddiwyd i gynnal y gemau ar ecsbloetiaeth, llafur gorfodol a marwolaethau 6,500 o weithwyr.
5. Mae nifer o Ddinasoedd mawr eraill eisoes wedi cyhoeddi boicotiau o ddangos y gemau yn gyhoeddus.

Cred y CCB

1. Nid yw'n bosibl i'r Undeb sgrinio cwpan y byd tra'n gwneud i'n cymuned LHDTTC+ deimlo'n ddiogel.
2. Mae gwneud elw o sgrinio Cwpan y Byd 2022, a gynhelir mewn gwlad lle mae hawliau LHDTTC+ a hawliau dynol eraill yn cael eu torri, yn tanseilio gwaith presennol UM Caerdydd ar gynhwysiant LHDTTC+, yn enwedig mewn chwaraeon.
3. Ni ddylai unrhyw weithwyr, heb ots ble yn y byd fod yn destun llafur gorfodol ac ecsbloetiaeth.
4. Ni ddylai'r Undeb wneud elw o ganlyniad i'r gemau hyn, ar ôl y cam-driniaethau echrydus o hawliau dynol yn Qatar a'r ecsploetio difrifol o weithwyr a ddefnyddir i adeiladu'r gemau.



Penderfyna'r CCB

1. Cymryd safbwynt cyhoeddus ar Gwpan y Byd 2022, gan wneud meddyliau'r Undeb a'i haelodau yn glir.
2. I ddiddymu unrhyw gynlluniau i ddangos Cwpan y Byd 2022 ar safle UM Caerdydd.
3. Cryfhau ei gwaith yn hyrwyddo cynhwysiant a chydaddoldeb o fewn chwaraeon, yn enwedig i aelodau'r gymuned LHDTC+.

Cynigydd: Jazz Walsh

Eilydd: Penny Dinh



CYNNIG PUMP

Cops Oddi ar y Campws

Noda'r CCB

1. Mae gan UM Caerdydd berthynas agos gyda Heddlu De Cymru ar hyn o bryd.
2. Mae hyn yn amlwg ym mhresenoldeb cyson yr heddlu yn adeilad yr UM ac yn Ffeiriau'r Glas ym mis Medi 2022, a chafodd heddwys ei gynnwys ar restr fer Gwobr Cyfoethogi Bywyd Myfyrwyr (ESLA) yn ddiweddar¹, yn ogystal â chydweithrediad â Heddlu De Cymru mewn mentrau sy'n ymwneud â diogelwch myfyrwyr.
3. Mae'r UM hefyd wedi hyrwyddo plismona fel gyrfa (gan ddisgrifio stondin gyrfa *Police Now* fel un "ciwt" ar Instagram ar 14^{eg} Chwefror 2022), yn ogystal â chyfleoedd gwirfoddoli gyda Heddlu De Cymru (e.e. trwy eu gweithgareddau yn ystod Wythnos y Glas ym mis Medi 2022).
4. Mae'r berthynas hon gyda Heddlu De Cymru a phlismona'n gyffredinol yn digwydd er gwaethaf enghreifftiau wedi'u dogfennu o broffilio hiliol a chreulondeb yr heddlu tuag at bobl Dduon a phobl o liw a gyflawnwyd gan Heddlu De Cymru a heddluoedd eraill yng Nghymru.
 - a. Bu farw dau ddyn Du, Mohamud Hassan yng Nghaerdydd a Mouayed Bashir yng Nghasnewydd, ar ôl dod i gysylltiad â Heddlu De Cymru yn 2021².
 - b. Mae pobl o liw yn cael eu targedu'n anghymesur gan yr heddlu sy'n Stopio a Chwilio: "O bob 1,000 o bobl Wyn sy'n byw yng Nghymru, cafodd wyth eu stopio a'u chwilio. Mae hyn yn cymharu â chyfradd o **56 mewn 1,000** o bobl Dduon, **16 mewn 1,000** o bobl Asiaidd, a **28 mewn 1,000** o bobl sy'n ystyried eu bod o gefndir ethnig Cymysg" (*Wales Online*, Mawrth 2022)³. Mewn geiriau eraill: Yng Nghymru, o'i gymharu â pherson Gwyn, mae'r tebygolrwydd o fod yn destun stopio a chwilio yn cynyddu **saith gwaith** ar gyfer person Du, yn **dyblu** yn achos person Asiaidd, a **phedair gwaith mor debygol** i berson o gefndir ethnig cymysg.
 - c. Mae pobl o liw yng Nghymru'n wynebu tactegau anghymesur mwy grymus gan yr heddlu: "Roedd pobl Dduon yn destun bron i 8% o'r holl achosion o ddefnyddio grym yn

¹ <https://www.cardiffstudents.com/news/article/6013/Enriching-Student-Life-Awards-Shortlist-2022-Rhestr-fer-Gwobrau-Cyfoethogi-Bywyd-Myfyrwyr-2022/>

² <https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-60066630>

³ <https://www.walesonline.co.uk/news/wales-news/police-stop-search-powers-wales-23315799>



ymwneud ag arf danio, er mai dim ond ychydig dros hanner un y cant o gyfanswm poblogaeth Cymru sy'n Ddu. Cafodd pobl Asiaidd hefyd eu bygwth yn anghymesur ag arfau tanio gan heddluoedd Cymru, gyda gynnau'n cael eu defnyddio yn erbyn pobl o dras Asiaidd yn 5.1% o'r holl achosion, er eu bod yn cyfrif am lai na 2% o'r boblogaeth." (Voice Wales, Mawrth 2022)⁴

- d. Mae Heddlu De Cymru yn amharod i dderbyn beimiadaeth o'u hymddygiad, gan dargedu protestwyr *Black Lives Matter* yng Nghaerdydd a orymdeithiodd i alw am gyfiawnder i Mohamud Hassan a Mouayed Bashir⁵. Yn Abertawe, fe wnaethon nhw geisio recriwtio ymgyrchydd *Black Lives Matter* fel hysbysydd cudd⁶; cyfeiriwyd at hyn fel rheswm pam y diddymwyd y grŵp ym mis Chwefror 2022⁷.
- e. Mae yna hefyd enghreifftiau diweddar o broffilio hiliol a gyflawnwyd gan yr heddlu yng Nghaerdydd, gan dargedu plant. Disgrifiwyd digwyddiad ar 30^{ain} Mawrth 2022 ar Twitter fel a ganlyn⁸:

Felly heddiw gwyliais fachgen ifanc Asiaidd yn cael ei roi mewn cyffion ar Heol Albany.

Gofynnais i'r heddlu beth oedden nhw'n ei wneud; fe wnaethon nhw gynhyrfu gyda mi am ofyn. Dywedodd y bachgen wrthyf nad oedd wedi gwneud dim byd, nad oedd ganddo ddim byd arno, ond mynnodd yr heddlu ei fod yn lleidr ceir ... gofynnais pam eu bod yn targedu'r bachgen ifanc hwn; eu hateb oedd ei fod yn debyg i ddisgrifiad o'r person yr oeddent yn chwilio amdano, felly dyma fi'n dweud: "Beth, bechgyn ifanc BAME?" Yna dyma nhw'n tynnu'r cyffion i ffwrdd, oherwydd doedd e wedi GWNEUD DIM BYD a doedd ganddo DDIM BYD YN EI FEDDIANT. Mae'n bur debyg bod y bachgen druan wedi'i drawmateiddio nawr. Fe weiddais ar yr heddlu, gan ddweud eu bod wedi rhoi cyffion ar y bachgen yn ddiangen, a hynny am ddim rheswm!

- 5. Mae plismona yn gyffredinol hefyd yn niweidio cymunedau ymylol eraill, gan gynnwys pobl LHDTC+, cymunedau dosbarth gweithiol, cymuned y teithwyr, a phobl ag anableddau. Yn ôl Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC), roedd gan ddeg o'r un-ar-bymtheg o bobl (bron i ddwy ran o dair) a fu farw yn y ddalfa neu ar ôl iddynt gael eu harestio yn 2018/19 gyfiwr iechyd meddwl, gan gynnwys anhwylder deubegwn, iselder a gorbryder⁹.

⁴ <https://www.voice.wales/revealed-shocking-stats-on-welsh-cops-use-of-force-against-du-people/>

⁵ <https://netpol.org/2021/04/12/south-wales-police-target-cardiff-blm-protesters/>

⁶ <https://netpol.org/2021/10/26/breaking-police-attempt-to-recruit-black-lives-matter-activist-as-an-informant/>

⁷ <https://twitter.com/blmswansea/status/1493299699238977536>

⁸ https://twitter.com/hazza_ps/status/1509218908020088845

⁹ https://policeconduct.gov.uk/sites/default/files/Documents/statistics/deaths_during_following_police_contact_201819.pdf



6. Mae achosion o gamymddwyn rhywiol hefyd yn uchel ymhlith swyddogion heddlu. Heddlu De Cymru sydd â'r chweched nifer uchaf o honiadau o gamymddwyn rhywiol o blith holl heddluoedd y DU (*iNews*, Hydref 2021)¹⁰.

Cred y CCB

1. Er y gall yr UM ddadlau eu bod yn gweithio gyda'r heddlu i wella diogelwch myfyrwyr, nid yw'r heddlu yn gwneud i bob myfyriwr deimlo'n ddiogel.
 - a. Ni fydd myfyrwyr Duon a myfyrwyr o liw sydd wedi profi creulondeb yr heddlu neu sydd wedi bod yn dyst i ymddygiad o'r fath o fewn eu cymuned yn teimlo'n ddiogel o amgylch yr heddlu. Gall grwpiau ymylol eraill fel myfyrwyr LHDTTC+, myfyrwyr anabl, a myfyrwyr sy'n ymwneud â'r diwydiant rhyw, hefyd deimlo'n anniogel o amgylch yr heddlu oherwydd eu bod wedi profi neu wedi bod yn dyst i greulondeb ganddynt.
 - b. Ni fydd unrhyw fyfyrwr sy'n profi creulondeb yr heddlu, yn enwedig myfyrwyr Duon a myfyrwyr o liw, yn teimlo'n ddiogel i ddatgelu gwybodaeth i'r UM er mwyn cael cymorth, oherwydd y berthynas agos rhwng yr UM a'r heddlu.
2. Ar hyn o bryd nid yw'r heddlu'n effeithiol o ran ymchwilio i gwynion am ddiogelwch a chynnig cymorth i oroeswyr. Mae pryderon diogelwch myfyrwyr sy'n ymwneud â'r diwydiant rhyw yn aml yn cael eu diystyru gan yr heddlu¹¹.
3. Ni ellir ymddiried yn Heddlu De Cymru i amddiffyn a gwella diogelwch myfyrwyr, yn enwedig o ran diogelwch menywod, pan honnir bod eu swyddogion eu hunain yn euog o gamymddwyn rhywiol.
4. Condemniwyd llofruddiaeth George Floyd yn America ym mis Mehefin 2020 gan UM Caerdydd¹² a Phrifysgol Caerdydd¹³ (Gweler Atodlen A ar gyfer Datganiad UM Caerdydd). Mae'n rhagrithiol os yw'r UM a'r Brifysgol wedyn yn cadw'n dawel am ddioddefwyr creulondeb yr heddlu a phroffilio hiliol yng Nghaerdydd a De Cymru, yn enwedig yn achos Mohamud Hassan a Mouayed Bashir, a fu farw yn dilyn cyswllt â'r heddlu yn 2021.
5. Fel elusen, mae gan UM Caerdydd gyfrifoldebau tuag at gymuned ehangach Caerdydd, yn enwedig pobl ifanc a allai fod â diddordeb mewn ymuno â'r Brifysgol. Byddai cefnogi'r

¹⁰ <https://inews.co.uk/news/sexual-misconduct-allegations-against-police-workers-uk-forces-statistics-1227576>

¹¹ <https://wonkhe.com/blogs/sex-work-some-students-voices-are-more-uncomfortable-than-others/>

¹² <https://twitter.com/cardiffstudents/status/1268246549613682695>

¹³ <https://www.caerdydd.ac.uk/media/media-statements/open-letter-from-the-vicechancellor>



heddlu tra bod pobl ifanc o liw yng Nghaerdydd yn dioddef trais yn nwylo'r heddlu yn anfon neges anghywir i'n cymuned, gan ymestyn y rhaniad rhwng myfyrwyr a'r gymuned leol.

6. Mewn mannau eraill yn y DU, mae'r heddlu wedi cael eu galw gan y brifysgol leol i ddychryn myfyrwyr oedd yn protestio, e.e. y rhai ar streic rent ym Manceinion yn 2020. Mae Deddf yr Heddlu, Troseddau, Dedfrydu a Llysoedd 2022, ers dod i rym, wedi golygu cynnydd yng ngrym yr heddlu, gan danseilio gallu myfyrwyr a dinasyddion eraill i brotestio. Fel sefydliad sy'n ceisio hyrwyddo llais myfyrwyr, byddai UM Caerdydd yn rhagrithiol i weithio gyda sefydliadau a allai rwystro llais myfyrwyr.

Penderfyna'r CCB

1. Bydd UM Caerdydd yn condemnio trais gan Heddlu De Cymru yn gyhoeddus, yn enwedig eu creulondeb tuag at bobl Dduon a phobl o liw.
2. Bydd UM Caerdydd yn cynnal archwiliad i ble mae'n ymgysylltu â'r heddlu, ac yn dilyn yr archwiliad hwn, bydd yn cwtogi ar ymgysylltu â'r heddlu cymaint â phosib heb fynd yn groes i ofynion cyfreithiol ac ymyrryd â gweithgareddau cwbl hanfodol yr UM, megis cynnal ei safleoedd masnachu a digwyddiadau mawr a phwysig. Bydd UM Caerdydd yn gweithio tuag at beidio ag ymgysylltu â'r heddlu yn y dyfodol, ac yn gweithio tuag at sefyllfa lle nad yw ein gweithgareddau na'n hincwm yn dibynnu ar ymgysylltu â Heddlu De Cymru nac unrhyw sefydliadau plismona eraill. Mae'r blaenoriaethau uniongyrchol wrth gwtogi ar ymgysylltu â'r heddlu yn cynnwys gwrthod, gwrthwynebu a gwrthsefyll presenoldeb yr heddlu ar y campws, yn enwedig i hyrwyddo cyfleoedd gyrfu (gan gynnwys cyfleoedd gwirfoddol) ac i hyrwyddo eu hunain fel unig amddiffynwyr cyfreithlon ein diogelwch. Bydd swyddogion UM Caerdydd hefyd yn lobio Prifysgol Caerdydd i gymryd yr un safiad a thorri cysylltiadau gyda'r heddlu cymaint â phosib.
 - Ni fydd hyn yn atal yr heddlu, gyda gwarantau, rhag ymchwilio i droseddau ar safleoedd UM Caerdydd, na chwaith rhag cyrraedd mewn ymateb i alwadau gan fyfyrwyr unigol sy'n dewis ffonio'r heddlu a cheisio cyfiawnder drwy'r system hon.
 - Bydd UM Caerdydd, yn enwedig ei wasanaeth Cyngchori, yn parhau i gefnogi myfyrwyr sy'n dymuno ceisio cyfiawnder drwy adrodd i'r heddlu a gweithio gyda nhw.
3. Bydd UM Caerdydd yn mynd ati i hyrwyddo dewisiadau amgen i blismona ac arferion cyfiawnder trawsnewidiol, gan wyro i ffwrdd o hyrwyddo'r heddlu a'r system gyfiawnder garcharol fel yr unig sianel y gallai goroeswyr ei dilyn, tra'n codi ymwybyddiaeth o gyfranogaeth yr heddlu mewn trais a thrais rhywiol. Bydd UM Caerdydd yn ehangu ei



ddiffiniad o ddiogelwch yn ei ymgyrchoedd i gydnabod sut mae plismona'n annog parhâd trais, ac y gall myfyrwyr deimlo'n anniogel o amgylch yr heddlu.

4. Bydd UM Caerdydd yn gweithio gyda sefydliadau lleol a chenedlaethol yn ogystal â grwpiau myfyrwyr i godi ymwybyddiaeth o drais yr heddlu yn ein cymuned, ac i ddarparu adnoddau i fyfyrwyr ynghylch gwrthsefyll trais yr heddlu, cefnogi dioddefwyr o greulondeb yr heddlu fel gwyliedydd, a gwybod beth yw ein hawliau wrth wynebu trais yr heddlu.
5. Bydd UM Caerdydd yn gwrthwynebu ac yn condemnio Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a Llysoedd 2022 yn gyhoeddus, yn enwedig ei photensial i atal protestiadau myfyrwyr, sy'n rhan hanfodol o lais myfyrwyr a democratiaeth.
6. Bydd UM Caerdydd yn darparu adnoddau i hwyluso arferion cyfiawnder trawsnewidiol ym Mhrifysgol Caerdydd fel dewis amgen i blismona wrth fynd i'r afael â diogelwch myfyrwyr, gan ganolbwyntio ar addysg, ymyriadau gan wyliedyddion, a gofal cymunedol.

Cynigydd: Penny Dinh, Swyddog Myfyrwyr Duon a Lleiafrifoedd Ethnig

Eilydd: Noah Russell, Is-Lywydd Addysg



Atodlen A:

Datganiad *Black Lives Matter* UM Caerdydd



Statement on the recent racial injustice

"If you are neutral in situations of injustice you have chosen the side of the oppressor"

- Desmond Tutu

Silence is an unacceptable response to racism. As your Students' Union we accept that we have not done enough historically and presently to address issues regarding race. It is our deepest shame and we offer our Black and Ethnic Minority identifying students our sincerest apologies.

#BlackLivesMatter

Datganiad ar yr anghyfiawnder hiliol diweddar

"Os ydych yn niwtral mewn sefyllfaoedd o anghyfiawnder, rydych wedi dewis ochr y gormeswr"

– Desmond Tutu

Mae distawrwydd yn ymateb annerbyniol i hiliaeth. Fel eich Undeb Myfyrwyr rydym yn derbyn nad ydym wedi gwneud digon yn hanesyddol, nac ar hyn o bryd, i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â hil. Teimlwn gywilydd mawr, ac rydym yn cynnig ein hymddiheuriadau diffuant i'r myfyrwyr hynny sy'n uniaethu fel pobl Ddu ac yn Lleiafrifoedd Ethnig.





There has undoubtedly been a disproportionate amount of burden placed on Black and Ethnic Minority identifying students to represent their pain and explain their experiences, many times trying to convince us of what is actually well known to occur. Racism and discrimination is real and racism in modern society is regrettably rife.

We recognise that racial injustice is unspeakably grievous. We have experienced the untimely killings of Black people in recent times, most recently the tragic murder of George Floyd in Minnesota. We all have been called on to say their names: George Floyd, Ahmaud Arbery, Breonna Taylor, Belly Mujinga, Regis Korchinski-Paquet and many more.

#BlackLivesMatter

Heb os, mae baich anghymesur wedi cael ei gosod ar fyfyrwyr Duon a Lleiafrifoedd Ethnig i fynegi eu poen ac egluro eu profiadau, dro ar ôl tro, gan geisio ein hargyhoeddi o'r hyn rydym i gyd yn gwybod sy'n digwydd mewn gwirionedd. Mae hiliaeth a chamwahaniaethu yn real, ac yn anffodus mae hiliaeth yn rhemp yn y gymdeithas fodern.

Rydym yn cydnabod bod anghyfiawnder hiliol yn beth difrifol iawn. Rydym wedi gweld llofruddiaethau anamserol pobl Dduon yn ddiweddar, yn fwyaf diweddar llofruddiaeth drasig George Floyd yn Minnesota. Gelwir ar bob un ohonom i ddweud eu henwau: George Floyd, Ahmaud Arbery, Breonna Taylor, Belly Mujinga, Regis Korchinski-Paquet a llawer mwy.



Cardiff University Students' Union
Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd



Racism and discrimination has shown itself in all educational levels, in the healthcare system, policing and society at large. Now more than ever, we need to commit to tackling racism and discrimination.

We will increase focus on exploring and identifying more effective ways of bettering your experiences whilst continuing to work with the University to put action into these words, such as by decolonising the curriculum, closing the Black Attainment Gap, resourcing BAME-specific counsellors, and supporting other initiatives currently being put forward.

We are committed to better amplifying the visibility of, the empathy towards, and the dialogue with Black and Ethnic Minority students.

We stand in solidarity with our Black students. Black Lives Matter.

#BlackLivesMatter

Mae hiliaeth a chamwahaniaethu yn amlwg ar bob lefel addysgol, yn y system ofal iechyd, plismona a chymdeithas yn gyffredinol. Nawr yn fwy nag erioed, mae angen i ni ymrwymo i fynd i'r afael â hiliaeth a chamwahaniaethu.

Byddwn yn cynyddu'r ffocws ar archwilio a chanfod ffyrdd mwy effeithiol o wella'ch profiadau, yn ogystal â pharhau i weithio gyda'r Brifysgol i droi'r geiriau hyn yn weithredu, e.e. trwy ddadwladychu'r cwricwlwm, cau'r Bwlch Cyrhaeddiad Du, darparu adnoddau ar gyfer cynghorwyr sy'n benodol ar gyfer pobl BAME, a chefnogi mentrau eraill sy'n cael eu cyflwyno ar hyn o bryd.

Rydym wedi ymrwymo i ehangu gwelededd, yr empathi tuag at, a'r ddeialog gyda myfyrwyr Duon a Lleiafrifoedd Ethnig.

Rydym yn sefyll mewn undod gyda'n myfyrwyr Duon. Mae Bywydau Du o Bwys.





Here are some useful links for donations, petitions and information regarding current events:

- Where to donate your money and time to help protesters: <https://nyulocal.com/where-to-donate-your-money-and-time-to-help-protesters-ef2727d7a9d2>
- Petitions, Donations and Information: <https://linktr.ee/iiuri>
- Commitment to tackling institutional racism: Cardiff University Students' Union AGM 2019: <https://www.cardiffstudents.com/news/article/6013/AGM-2019-CCB-2019/>

#BlackLivesMatter

Dyma rai dolenni defnyddiol ar gyfer gwneud cyfraniad, deisebau a gwybodaeth am ddigwyddiadau cyfredol:

- Ble i roi eich arian a'ch amser i helpu protestwyr: nyulocal.com/where-to-donate-your-money-and-time-to-help-protesters-ef2727d7a9d2
- Deisebau, Rhoddion a Gwybodaeth: linktr.ee/iiuri
- Ymrwymiad i fynd i'r afael â hiliaeth sefydliadol:
www.cardiffstudents.com/news/article/6013/AGM-2019-CCB-2019/



Atodlen B:

Darllen pellach am drais yr heddlu

Erthyglau ar-lein:

Cops on campus are a threat to students of colour – Remi Joseph-Salisbury, Red Pepper:
<https://www.redpepper.org.uk/cops-on-campus-are-a-threat-to-students-of-colour/>

Against ‘hate crime’ – Kay, Daikon Zine: <https://daikon.co.uk/blog/against-hate-crime>

The students fighting to keep cops off campus – Chloé Meley, Huck Magazine:
<https://www.huckmag.com/perspectives/the-students-fighting-to-keep-cops-off-campus/>

Racist Policing In Wales: ‘The Numbers And Stats Are There For Everyone To See’ – Aara Syed, Voice Wales: <https://www.llais.cymru/plismona-hiliaeth-yng-nghymru-mae-y-rhifau-ac-ystadegau-yn-y-mae-pawb-i-weld/>

Llyfrau:

Brick by Brick: How we build a world without prisons – Cradle Community, Hajar Press

<https://www.hajarpres.com/books/brick-by-brick>

Feminism, Interrupted: Disrupting power – Lola Olufemi, Pluto Press

Yn enwedig Pennod 8, sy'n dwyn y teitl, ***The answer to sexual violence is not more prisons***

<https://www.plutobooks.com/9780745340067/feminism-interrupted/>



CYNNIG CHWECH

Gyrfaoedd Heb Ffossil

Noda'r CCB

1. Bod gweithrediadau'r diwydiannau olew, nwy a mwyngloddio¹ yn achosi niwed amgylcheddol aruthrol, drwy gyflymu'r argyfwng hinsawdd ac ecolegol², gan lygru'r dŵr³ a dinistrio tirweddau yn barhaol.⁴
2. Bod y gweithrediadau echdynnol hyn hefyd yn achosi niwed cymdeithasol uniongyrchol, drwy ddatgysylltu pobl o'u cartrefi a'u tiroedd,⁵ dinistrio bywoliaethau,⁶ dymchwel safleoedd brodorol sanctaidd,⁷ a gadael gweithwyr a chymunedau â phroblemau iechyd difrifol.⁸
3. Bod graddedigion yn troi cefn fwyfwy ar y sector olew a nwy. Dangosodd astudiaeth yn 2017 bod nifer y graddedigion sy'n cymryd swyddi yn y diwydiant wedi gostwng gan 60% mewn pedair blynedd.⁹
4. Mae pobl ifanc yn gweld olew a nwy fel y sector mwyaf anneniadol i weithio ynddo.¹⁰ Maen nhw'n ei gysylltu â chyfrifoldeb am yr argyfwng hinsawdd, ac yn credu nad oes dyfodol i swyddi yn y diwydiant.¹¹
5. Nid oes gan Wasanaeth Gyrfaoedd y Brifysgol bolisi sydd ar gael yn gyhoeddus sy'n eithrio hyrwyddo gyrfaoedd yn y diwydiant olew, nwy a mwyngloddio drwy ei wefan, ffeiriau gyrfaoedd, e-byst at fyfyrwyr a digwyddiadau recriwtio eraill.
6. Mae Adran Gyrfaoedd Prifysgol Caerdydd eisoes yn cyfyngu ar y swyddi gwag a hysbyseb i eithrio rhai diwydiannau yn seiliedig ar seiliau moesegol a moesol, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i: "Swyddi gwag sy'n gysylltiedig â'r diwydiant oedolion/rhyw neu sy'n gysylltiedig â chynnwys i oedolion" a "Swyddi gwag gyda chwmnïoedd Tobacco, neu sy'n creu cynhyrchion sy'n seiliedig ar dybaco, oherwydd yr ymchwil a wneir gan Brifysgol Caerdydd gydag Ymchwil Canser y DU"¹². Mae hyn yn dangos cynsail clir bod y math hwn o gynnis yn ddichonadwy gyda phwysau gan gorff y myfyrwyr.
7. Mae'r brifysgol wedi gwneud ymrwymiad moesegol a chynaliadwyedd cyhoeddus. Roedd hyn yn cynnwys ymrwymiad i gael gwared ar ei fuddsoddiadau'n llawn mewn cwmnïau tanwydd ffosil erbyn 2021. Os yw'r brifysgol wir yn credu yn yr addewid hwn mae angen iddi fynd ymhellach yn y frwydr dros blaned lanach



Cred y CCB

1. Bod gwahodd cwmnïau olew, nwy, a mwyngloddio i hysbysebu gyda'r gwasanaeth gyrfaedd yn ychwanegu dilysrwydd i'r syniad bod y cwmnïau hyn yn rhan dderbyniol o'n cymdeithas a'n dyfodol.
2. Dylai Gwasanaeth Gyrfaedd y Brifysgol sicrhau bod ei gweithgareddau a'i digwyddiadau recriwtio yn cyd-fynd ag egwyddorion moesegol y brifysgol o gynaliadwyedd a nodir yn gyhoeddus.
3. Mae gan wasanaeth gyrfaedd y brifysgol gyfrifoldeb i'w myfyrwyr i hyrwyddo swyddi sydd â dyfodol.
4. Mae dod â rhan y brifysgol i ben mewn piblinellau gyrfaedd i'r diwydiant olew, nwy, a mwyngloddio yn ddull effeithiol o ddangos undod â chymunedau yr effeithir arnynt gan weithrediadau'r cwmnïau hyn.

Penderfyna'r CCB

1. I gefnogi'r ymgyrch Gyrfaedd Heb Ffosiil yn gyhoeddus,¹³ a mynnu bod adran gyrfaedd Prifysgol Caerdydd yn:
 - Gwrthod pob perthynas newydd gyda chwmnïau olew, nwy neu fwyngloddio.
 - Gwrthod adnewyddu unrhyw berthynas bresennol gyda chwmnïau olew, nwy neu fwyngloddio ar ôl i'r cyfnod cytundebol orfodol ddod i ben.
 - Mabwysiadu Polisi Gyrfaedd Moesegol sydd ar gael yn gyhoeddus ac sy'n eithrio cwmnïau olew, nwy a mwyngloddio yn benodol o gyfleoedd recriwtio.
2. Mandadu swyddog sabothol llawn amser a'r Swyddog Moesegol ac Amgylcheddol i fynd ati i weithio gyda'r grŵp ymgyrchu Gyrfaedd Heb Ffosiil a People & Planet i sicrhau bod gwaith yr Undeb yn gysylltiedig ag ymgyrchwyr ar lawr gwlad.
3. Mandadu'r swyddog(ion) llawn amser a rhan-amser perthnasol i helpu sefydlu cyfarfodydd yn ymwneud â'r ymgyrch Gyrfaedd Heb Ffosiil gyda staff prifysgol perthnasol, a chynnwys ymgyrchwyr sy'n fyfyrwyr lle bo hynny'n berthnasol.
4. Defnyddio sianeli cyfryngau cymdeithasol UM perthnasol i rymuso deisebau, datganiadau a galwadau eraill i weithredu gan yr ymgyrch Gyrfaedd Heb Ffosiil.



5. Anfon datganiad i'r wasg a datganiad gwefan yn cyhoeddi pasio'r cynnig hwn a datgan cefnogaeth yr undeb ar gyfer yr ymgyrch hon.
6. I beidio byth â chaniatáu i gwmnïau olew, nwy, na mwyngloddio gael mynediad at ddigwyddiadau a drefnir gan UM, neu i roi benthyg enw, logo neu gymeradwyaeth yr UM i ddigwyddiadau sy'n cynnwys y cwmnïau hyn.
7. I wrthod presenoldeb cwmnïau olew, nwy a mwyngloddio mewn unrhyw ofod corfforol neu ddigidol sy'n cael ei reoli gan UM.

Cred Undeb y Myfyrwyr, fel corff myfyrwyr y sefydliad dysgu uwch mwyaf yng Nghymru, fod gennym ddyled i'n hamgylchedd i wthio Prifysgol Caerdydd, a Phrifysgolion yn gyffredinol ar draws y DU, i wneud yn well.

Cynigydd: Noah Russell

Eilydd: Ellie Mae Dorrans

1. Am ddiffiniad manwl o'r cwmnïau rydyn ni'n cyfeirio atynt pan rydyn ni'n dweud 'olew, nwy, a chwmnïau mwyngloddio' gweler y [dudalen Targedau Gyrfaedd Heb Ffossil](#).
2. [Revealed: the 20 firms behind a third of all carbon emissions](#)
3. [Impacts of copper mining on people and nature](#)
4. [Revealed: Trump officials rush to mine desert haven native tribes consider holy](#)
5. [The Dark Side of Coal](#)
6. [CUT AND RUN: How Britain's top two mining companies have wrecked ecosystems without being held to account](#)
7. [Rio Tinto blasts 46,000-year-old Aboriginal site to expand iron ore mine](#)
8. [Cerro de Pasco: The city built around a mine](#)
9. [Oil industry has a millennial problem as talent pipeline trickles](#)
10. [Millennials at work](#)
11. [How do we regenerate this generation's view of oil and gas?](#)
12. [Request on industries limited on advertising careers by Cardiff University](#)
13. [People & Planet's Fossil Free Careers Campaign](#)



CYNNIG SAITH

Swyddog Lleiafrifoedd Llawn Amser Prifysgol Caerdydd

Noda'r CCB

1. Nid oes gan Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd Swyddog Sabothol Lleiafrifoedd llawn amser ar hyn o bryd.
2. Does dim cynrychiolaeth deg o'n myfyrwyr lleiafrifol o fewn yr Undeb, gan nad yw'r Undeb fel platform yn cael ei ddefnyddio gan Swyddogion Sabothol na staff i raddau digonol i hyrwyddo buddiannau ein myfyrwyr lleiafrifol.
3. Mae cymuned myfyrwyr Lleiafrifol y Brifysgol wedi'i hynysu ac ar ymylon corff myfyrwyr ehangach.
4. Mae llawer o Undebau Myfyrwyr eraill fel Manceinion a De Montfort wedi sefydlu strwythurau gwastad ar gyfer eu swyddogion sabothol llawn amser yn llwyddiannus.
5. Mae'r blynyddoedd diwethaf wedi gweld her sylweddol wrth recriwtio myfyrwyr lleiafrifol i rolau swyddogion llawn amser. Ar draws Undebau Myfyrwyr Grŵp Russel, mae diffyg swyddogion sabothol Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, yn enwedig rhai o gefndiroedd sy'n ddifreintiedig yn economaidd.
6. Er mwyn gallu cyflwyno swyddog lleiafrifoedd o fewn strwythur gwastad mae'n rhaid newid ls-ddeddfau yr undebau.

Cred y CCB

1. O fewn y system bresennol, nid yw'n bosib i un myfyriwr rhan amser gynrychioli llais a dyheadau holl fyfyrwyr lleiafrifol y Brifysgol yn deg.
2. Byddai cyflwyno swyddog lleiafrifoedd yn denu mwy o fyfyrwyr lleiafrifol talentog i'r Brifysgol yn ogystal â rhai o gefndiroedd difreintiedig. O ganlyniad, bydd cynrychiolaeth decach o gymdeithas ehangach o fewn ein prifysgol.
3. Golyga hyn y bydd cynrychiolwr penodol yn gallu ymroi yn llawn i sicrhau bod yr Undeb a'r Brifysgol yn gweithredu er budd ein myfyrwyr Lleiafrifol. Bydd hyn yn creu amgylchedd mwy amrywiol a theg i'n holl fyfyrwyr.



4. Y cam cyntaf yn y broses o gyflwyno swyddog lleiafrifoedd o fewn strwythur gwastad yw newid is-ddeddfau hen ffasiwn yr Undeb.

Penderfyna'r CCB

Galw ar Fwrdd yr Ymddiriedolwyr a Swyddogion Sabothol i:

1. Ddechrau'r broses o ailstrwythuro'r saith rôl swyddog sabothol presennol, gan greu strwythur llywydd gwastad a chyflwyno rôl swyddog lleiafrifol llawn amser newydd. Dylai'r strwythur gwastad newydd fod fel a ganlyn:

Llywydd Myfyrwyr Lleiafrifol

Llywydd Israddedig (Addysg a Lles)

Llywydd Ôl-raddedig (Addysg a Lles)

Llywydd Chwaraeon a Llywydd yr Undeb Athletau

Llywydd Cymdeithasau a Gwirfoddoli

Llywydd Parc y Mynydd Bychan

Llywydd y Gymraeg a Diwylliant Cymreig

2. Diweddarau is-ddeddf 7.2.8 o: "Rhaid i rolau Ymddiriedolwyr Sabothol gael eu penderfynu gan Gyfarfod Aelodau neu Refferendwm, ond bydd ar bob adeg yn cynnwys Llywydd ac Is-lywydd laith, Diwylliant, a Chymuned Cymreig."

i: *"Rhaid i rolau Ymddiriedolwyr Sabothol gael eu penderfynu gan Gyfarfod Aelodau neu Refferendwm, ond bydd ar bob adeg yn cynnwys swyddog sabothol penodol dros laith, Diwylliant, a Chymuned Cymreig."*



3. Diweddarau is-ddeddf 23.2 o: "Rhaid i hyd at 7 Ymddiriedolwr Sabothol gael eu hethol yn unol ag Erthygl 23.1 i swyddi a bennir yn yr Is-Ddeddfau a rhaid iddynt gynnwys y Llywydd. Bydd pob un o'r Ymddiriedolwyr Sabothol hyn yn parhau i fod yn Ymddiriedolwr Sabothol nes iddynt beidio â bod yn Ymddiriedolwr Sabothol yn unol ag Erthyglau 27 neu 28. Ac eithrio os nodir yn wahanol, mae cyfeiriadau yn yr Erthyglau hyn at "Ymddiriedolwyr Sabothol" i unigolion sy'n gweithredu yn rhinwedd eu swydd fel Ymddiriedolwyr Sabothol yn unig."

i : "Rhaid i hyd at 7 Ymddiriedolwr Sabothol gael eu hethol yn unol ag Erthygl 23.1 i swyddi a bennir yn yr Is-Ddeddfau. Bydd pob un o'r Ymddiriedolwyr Sabothol hyn yn parhau i fod yn Ymddiriedolwr Sabothol nes iddynt beidio â bod yn Ymddiriedolwr Sabothol yn unol ag Erthyglau 27 neu 28. Ac eithrio os nodir yn wahanol, mae cyfeiriadau yn yr Erthyglau hyn at "Ymddiriedolwyr Sabothol" i unigolion sy'n gweithredu yn rhinwedd eu swydd fel Ymddiriedolwyr Sabothol yn unig."

Cynigydd: Jazz Walsh

Eilydd: Gurpal Sahota



EITEM WYTH

Ddydd Llun 12 Rhagfyr 2022 bydd Undeb y Myfyrwyr yn agor enwebiadau ar gyfer Etholiadau'r Gwanwyn. Bydd pob rôl swyddog sabothol a swyddog ymgyrchu ar gyfer 2022/2023 yn agored i'w henwebu yn yr etholiadau hyn. Os hoffech ragor o wybodaeth ewch i www.cardiffstudents.com/elections neu e-bostiwch elections@cardiff.ac.uk



Diwygiadau i Gynigion CCB

Categori	Person sy'n Diwygio: George Phillips
Enw'r Cynnig:	Safbwynt Undeb Myfyrwyr Caerdydd ar Gwpan y Byd FIFA 2022
A wnaethoch gyflwyno'r cynnig gwreiddiol?	Na
Os gwelwch yn dda, cyfeiriwch at adran benodol yn y cynnig yr hoffech ei ddiwygio:	Disodli Penderfyna'r CCB 2
Beth sy'n cael ei ddweud ar hyn o bryd? (Cyfeiriwch at y pwynt a'r rhif dudalen os gwelwch yn dda e.e. Tudalen 1, Creda'r CCB 1.)	Penderfyna'r CCB 2 "I ddiddymu unrhyw gynlluniau i ddangos Cwpan y Byd 2022 ar safle UM Caerdydd."
I beth hoffech ei ddiwygio?:	1. Mae gemau Cwpan y Byd FIFA 2022 yn parhau i gael eu dangos yn lleoliadau Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd, ond mae'r Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol yn galw ar y Bwrdd i roi arian i gymdeithasau LHDTG+ o fewn Undeb y Myfyrwyr megis Pride UM, TANGGS a'r Gymdeithas LHDTG+ 1.1. Dylai'r rhodd hon fod yn swm sy'n hafal i'r arian a gymerwyd (er enghraifft, ond heb fod yn gyfyngedig i, gwerthiant diodydd yn ystod gemau) gan UMPC o'r gemau a ddangosir. 1.2. Dylid ymgynghori â Swyddog(ion) Ymgyrchu LHDTG+ wrth ddewis pa grwpiau i roi arian iddynt. 1.3. Er mwyn sicrhau tryloywder, dylai Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd ryddhau datganiad yn gyhoeddus yn nodi faint a roddwyd ac i ba grŵp(iau). Dylid rhyddhau'r datganiad hwn ar y cyd â'r grŵp(iau) sy'n derbyn y rhodd(ion). Dylid rhyddhau'r datganiad hwn yn brydlon ar ôl i roddion gael eu rhoi. 2. Dylai gwybodaeth am driniaeth negyddol gweithwyr a hawliau LHDTG+ yn Qatar fod yn amlwg yn weladwy ac ar gael yn rhwydd lle dangosir gemau o fewn UMPC.



Categori	Person sy'n Diwygio: J Morewood
Enw'r Cynnig:	Cops Oddi ar y Campws
A wnaethoch gyflwyno'r cynnig gwreiddiol?	Na
Os gwelwch yn dda, cyfeiriwch at adran benodol yn y cynnig yr hoffech ei ddiwygio:	Dileu a Disodli Penderfyna'r CCB 1 i 6 gyda Phenderfyna'r CCB newydd 1 i 17.
Beth sy'n cael ei ddweud ar hyn o bryd? (Cyfeiriwch at y pwynt a'r rhif dudalen os gwelwch yn dda e.e. Tudalen 1, Creda'r CCB 1.)	Teitl sydd eisoes yn bodoli: Cops Oddi ar y Campws Tudalen 40, Penderfyna'r CCB 1 i Benderfyna'r CCB 6 1. Bydd UM Caerdydd yn condemnio trais gan Heddlu De Cymru yn gyhoeddus, yn enwedig eu creulondeb tuag at bobl Dduon a phobl o liw. 2. Bydd UM Caerdydd yn cynnal archwiliad i ble mae'n ymgysylltu â'r heddlu, ac yn dilyn yr archwiliad hwn, bydd yn cwtdogi ar ymgysylltu â'r heddlu cymaint â phosib heb fynd yn groes i ofynion cyfreithiol ac ymyrryd â gweithgareddau cwbl hanfodol yr UM, megis cynnal ei safleoedd masnachu a digwyddiadau mawr a phwysig. Bydd UM Caerdydd yn gweithio tuag at beidio ag ymgysylltu â'r heddlu yn y dyfodol, ac yn gweithio tuag at sefyllfa lle nad yw ein gweithgareddau na'n hincwm yn dibynnu ar ymgysylltu â Heddlu De Cymru nac unrhyw sefydliadau plismona eraill. Mae'r blaenoriaethau uniongyrchol wrth gwtogi ar ymgysylltu â'r heddlu yn cynnwys gwrthod, gwrthwynebu a gwrthsefyll presenoldeb yr heddlu ar y campws, yn enwedig i hyrwyddo cyfleoedd gyrfa (gan gynnwys cyfleoedd gwirfoddol) ac i hyrwyddo eu hunain fel unig amddiffynwyr cyfreithlon ein diogelwch. Bydd swyddogion UM Caerdydd hefyd yn lloio Prifysgol Caerdydd i gymryd yr un safiad a thorri cysylltiadau gyda'r heddlu cymaint â phosibl. - Ni fydd hyn yn atal yr heddlu, gyda gwarantau, rhag ymchwilio i droseddau ar safleoedd UM Caerdydd, na chwaith rhag cyrraedd mewn ymateb i alwadau gan fyfyrwyr unigol sy'n dewis ffonio'r heddlu a cheisio cyfiawnder drwy'r system hon. - Bydd UM Caerdydd, yn enwedig ei wasanaeth Cynghori, yn parhau i gefnogi myfyrwyr sy'n dymuno



	ceisio cyfiawnder drwy adrodd i'r heddlu a gweithio gyda nhw. 3. Bydd UM Caerdydd yn mynd ati i hyrwyddo dewisiadau amgen i blismona ac arferion cyfiawnder trawsnewidiol, gan wro i ffwrdd o hyrwyddo'r heddlu a'r system gyfiawnder garcharol fel yr unig sianel y gallai goroeswyr ei dilyn, tra'n codi ymwybyddiaeth o gyfranogaeth yr heddlu mewn trais a thrais rhywiol. Bydd UM Caerdydd yn ehangu ei 41 ddiffiniad o ddiogelwch yn ei ymgyrchoedd i gydnabod sut mae plismona'n annog parhâd trais, ac y gall myfyrwyr deimlo'n anniogel o amgylch yr heddlu. 4. Bydd UM Caerdydd yn gweithio gyda sefydliadau lleol a chenedlaethol yn ogystal â grwpiau myfyrwyr i godi ymwybyddiaeth o drais yr heddlu yn ein cymuned, ac i ddarparu adnoddau i fyfyrwyr ynghylch gwrthsefyll trais yr heddlu, cefnogi dioddefwyr o greulondeb yr heddlu fel gwylidydd, a gwybod beth yw ein hawliau wrth wynebu trais yr heddlu. 5. Bydd UM Caerdydd yn gwrthwynebu ac yn condemnio Deddf yr Heddlu, Trosedd, Dedfryd a Llysoedd 2022 yn gyhoeddus, yn enwedig ei photensial i atal protestiadau myfyrwyr, sy'n rhan hanfodol o lais myfyrwyr a democratiaeth. 6. Bydd UM Caerdydd yn darparu adnoddau i hwyluso arferion cyfiawnder trawsnewidiol ym Mhrifysgol Caerdydd fel dewis amgen i blismona wrth fynd i'r afael â diogelwch myfyrwyr, gan ganolbwyntio ar addysg, ymyriadau gan wylidyddion, a gofal cymunedol.
I beth hoffech ei ddiwygio?:	Teitl diwygiedig: Adolygiad annibynnol o'r berthynas rhwng UM Caerdydd a'r heddlu: llais i fyfyrwyr 1. Bydd UM Caerdydd yn cydnabod bod yna angen sylweddol a chymhleth bellach i ymgynghori â phoblogaeth y myfyrwyr ynglŷn â'i berthynas gyda'r heddlu er mwyn deall yn well sut mae'r materion hyn yn effeithio ar fyfyrwyr. 2. Bydd UM Caerdydd yn comisiynu adolygiad annibynnol i archwilio, ystyried ac adrodd ar ei berthynas â'r heddlu. Bydd yr adolygiad hwn yn cael ei arwain gan berson/au annibynnol addas o thu allan i'r UM a'r brifysgol a ystyrir yn dderbyniol i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr. Bydd elfen ymgynghorol sylweddol i'r adolygiad. Fe fydd yr adolygiad yn arwain at gyfres o argymhellion terfynol ynglŷn â dyfodol



	perthynas UM Caerdydd â'r heddlu. Bydd cwmpas yr adolygiad yn cynnwys y canlynol (3 – 7): 3. Ymgynghoriad ynghylch profiadau myfyrwyr â'r heddlu, gan werthfawrogi'r nifer o ffyrdd y gall myfyrwyr ryngweithio â'r heddlu, megis canlyn cyfiawnder, gwirfoddoli, chwilio am waith, defnyddio ffyrdd sy'n cael eu cadw'n ddiogel gan yr heddlu neu fod yn destun ymchwiliad am drosedd honedig. 4. Ymgynghoriad am ganfyddiadau myfyrwyr o'r heddlu. Gallai hyn asesu a yw plismona yn helpu myfyrwyr i deimlo'n ddiogel ar y campws neu effaith rhyngweithiadau negyddol gyda'r heddlu, fel proffilio a rhagfarn. 5. Archwiliad o ble a sut mae UM Caerdydd yn ymgysylltu â'r heddlu er mwyn llywio cwmpas yr adolygiad a'r argymhellion a gynhyrchir. 6. Methodoleg ymgynghori gynhwysol, wedi'i datblygu ar y cyd â chynigydd y cynnig gwreiddiol, swyddogion etholedig UM Caerdydd ac a gymeradwywyd gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr. Rhaid i'r adolygiad ymgynghori ag o leiaf 5% o boblogaeth y myfyrwyr. Oherwydd natur sensitif y materion a godwyd, rhaid i'r ffordd y gellir cyflwyno tystiolaeth i'r adolygiad fod yn gynhwysol hefyd, megis darparu'r opsiwn ar gyfer tystiolaeth ddienw. 7. Yn ogystal ag ymgynghori â phoblogaeth y myfyrwyr yn uniongyrchol, bydd yr adolygiad yn estyn allan i gymdeithasau a sefydliadau perthnasol. Bydd enghreifftiau'n cynnwys cymdeithasau myfyrwyr. Gellir ymgynghori â sefydliadau allanol a grwpiau ymgyrchu. Fel rhan o'r adolygiad, bydd y sefydliadau plismona a amlygwyd yn cael yr hawl i ateb. 8. Bod Cylch Gorchwyl ar gyfer yr adolygiad hwn yn cael ei gyflwyno i Fwrdd Ymddiriedolwyr UM Caerdydd i'w gymeradwyo cyn gynted ag y bo'n ymarferol neu ddim hwyrach na thri mis ar ôl cloi'r Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol. Bydd y Cylch Gorchwyl hwn yn disgrifio amserlen ar gyfer yr adolygiad ac yn darparu adnoddau i'w gwblhau, megis tîm adolygu addas. 9. Wrth ddatblygu'r argymhellion hyn, bydd y tîm adolygu yn ystyried ystod lawn o opsiynau, gan gynnwys yr opsiwn i geryddu'r heddlu neu gyfyngu ar ymgysylltiad.
--	--



	10. Bod canfyddiadau'r adroddiad yn cael eu lledaenu i boblogaeth y myfyrwyr a'r brifysgol drwy sianeli priodol. Bydd yr argymhellion yn cael eu cyflwyno i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr i'w gweithredu. Dylai'r tîm adolygu ystyried a ydyw yn argymhell dilyn argymhellion gan y cynigydd gwreiddiol yn 11 – 17: 11. Bydd yr adolygiad yn ystyried a ydyw yn argymhell bod UM Caerdydd yn condemnio trais gan yr heddlu yn gyhoeddus gan Heddlu De Cymru, yn enwedig eu creulondeb tuag at bobl Dduon a phobl o liw. 12. Bydd yr adolygiad yn ystyried a ydyw yn argymhell i Brifysgol Caerdydd lleihau ymgysylltiad â'r heddlu i'r isafswm heb dorri gofynion cyfreithiol ac ymyrryd â gweithrediadau cwbl hanfodol yr UM, megis gweithredu ei leoliadau masnachu a digwyddiadau pwysig ar raddfa fawr. Bydd UM Caerdydd yn gweithio tuag at beidio ag ymgysylltu â'r heddlu yn y dyfodol, ac yn gweithio tuag at sefyllfa lle nad yw ein gweithrediad a'n hincwm yn ddibynnol ar ymgysylltiad â Heddlu De Cymru nac unrhyw sefydliadau plismona eraill. Mae'r blaenoriaethau uniongyrchol wrth leihau ymgysylltu â'r heddlu yn cynnwys gwrthod, gwrthwynebu, a gwrthsefyll presenoldeb yr heddlu ar y campws, yn enwedig i hyrwyddo cyfleoedd gyrfa (gan gynnwys rhai gwirfoddol) a hyrwyddo eu hunain fel unig amddiffynwyr dilys ein diogelwch. Bydd swyddogion UM Caerdydd hefyd yn lloïo Prifysgol Caerdydd i gymryd yr un safbwynt a thorri cysylltiadau â'r heddlu gymaint â phosibl. - Ni fydd hyn yn atal yr heddlu, gyda gwarantau, rhag ymchwilio i droseddau ar safle UM Caerdydd, na chwaith rhag cyrraedd mewn ymateb i alwadau gan fyfyrwyr unigol sy'n dewis galw'r heddlu a cheisio cyfiawnder trwy'r system hon. - Bydd UM Caerdydd, yn enwedig ei wasanaeth Cyngor, yn parhau i gefnogi myfyrwyr sy'n dymuno dilyn cyfiawnder drwy hysbysu'r heddlu a gweithio gyda nhw. 13. Bydd yr adolygiad yn ystyried a ydyw yn argymhell i Undeb Myfyrwyr Caerdydd hyrwyddo dulliau amgen i blismona ac arferion cyfiawnder trawsffurfiol. Bydd hyn yn rhoi llai o bwyslais ar hyrwyddo'r heddlu a'r system gyfiawnder gosbol fel yr unig lwybr sydd ar gael i oroeswyr,
--	---



	a bydd hefyd yn codi ymwybyddiaeth o rôl yr heddlu mewn trais a thrais rhywiol. Bydd UM Caerdydd yn ehangu ei ddiffiniad o ddiogelwch yn ei hymgyrchoedd i gydnabod sut mae plismona yn cynnal trais, ac y gall myfyrwyr deimlo'n annioegel o amgylch yr heddlu. 14. Bydd yr adolygiad yn ystyried a ydyw yn argymhell i UM Caerdydd weithio gyda sefydliadau lleol a chenedlaethol yn ogystal â grwpiau myfyrwyr i godi ymwybyddiaeth o drais gan yr heddlu yn ein cymuned, ac i roi adnoddau i fyfyrwyr ynghylch gwrthsefyll trais gan yr heddlu, cefnogi dioddefwyr creulondeb yr heddlu fel gwylwr, a gwybod ein hawliau wrth wynebu trais gan yr heddlu. 15. Bydd yr adolygiad yn ystyried a ydyw yn argymhell i UM Caerdydd wrthwynebu a chondemnio Deddf yr Heddlu, Trosedd, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022 yn gyhoeddus, yn enwedig ei botensial i atal protestiadau myfyrwyr, sy'n rhannau hanfodol o lais a democratiaeth myfyrwyr. 16. Bydd yr adolygiad yn ystyried a ydyw yn argymhell y bydd UM Caerdydd yn darparu adnoddau i hwyluso arferion cyfiawnder trawsnewidiol ym Mhrifysgol Caerdydd fel dull amgen i blismona wrth fynd i'r afael â diogelwch myfyrwyr, gan ganolbwyntio ar addysg, ymyriadau gwylwyr, a gofal cymunedol. 17. Bydd yr adolygiad yn ystyried unrhyw argymhellion eraill a all fod yn addas.
--	---

DIWEDD Y PAPURAU

